

GWARANT I BOBL IFANC: SGWRS GENEDLAETHOL



ADRODDIAD YMCHWIL

YPG • YPG •

2022

#trustin

TING TV



CRYNODEB GWEITHREDOL	07
1.0 EU DYHEADAU	09
2.0 RHWYSTRAU SY’N ATAL MYNEDIAD AT ADDYSG, CYFLOGAETH A HYFFORDDIANT	21
3.0 YMWYBYDDIAETH O’R GEFNOGAETH SYDD AR GAEL	41
4.0 PROFIADAU CADARNHAOL O GEFNOGAETH	45
5.0 GEFNOGAETH SYDD EI HANGEN	57
6.0 YMGYSYLLTU’N FWY EFFEITHIOL Â PHOBL IFANC	65
7.0 CASGLIADAU	73

GWARANT I BOBL IFANC
GWARANT I BOBL IFANC
GWARANT I BOBL IFANC
GWARANT I BOBL IFANC
GWARANT I BOBL IFANC
GWARANT I BOBL IFANC
GWARANT I BOBL IFANC
GWARANT I BOBL IFANC
GWARANT I BOBL IFANC
GWARANT I BOBL IFANC
GWARANT I BOBL IFANC

YPG



Mae'r Warrant i Bobl Ifanc yn ymrwymiad newydd sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau nad oes cenhedlaeth goll yng Nghymru yn dilyn pandemig COVID-19. Bydd yn gwarantu cynnig o gefnogaeth i bobl ifanc, i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, neu i helpu i gael gwaith neu fod yn hunangyflogedig. Mae'r warrant i bob person ifanc rhwng 16-24 oed sy'n byw yng Nghymru.

Fel rhan o'r Warrant, mae ar Lywodraeth Cymru eisiau sicrhau ei bod yn parhau i wrando ar bobl ifanc Cymru. Mae arni eisiau deall sut y mae pobl ifanc yng Nghymru yn gweld y gefnogaeth a'r ddarpariaeth sydd ar gael iddynt, a pha fath o gefnogaeth maen nhw'n dweud bod arnyn nhw ei hangen, a chlywed am y rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu ar hyn o bryd.

Fel rhan o'r gweithgaredd hwn, lansiodd Llywodraeth Cymru y Sgwrs Genedlaethol gyda Phobl Ifanc ym mis Mai 2022. Roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i gael sgysiau gyda **phobl ifanc** o grwpiau nad ydyn nhw'n cael eu cywed yn aml, er enghraifft, pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Y prif themâu i'w harchwilio oedd beth oedd gan bobl ifanc 16-24 oed i'w ddweud am eu profiadau o gael hyfforddiant, addysg a gwaith, yn fwyaf arbennig:

- Eu dyheadau;
- Yr heriau roedden nhw'n eu hwynebu;
- Eu hymwybyddiaeth o'r gefnogaeth a oedd ar gael iddynt;
- Eu syniadau er mwyn ymgysylltu'n well â phobl ifanc yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd **y canfyddiadau ansoddol a meintiol** o sgysiau gyda phobl ifanc o wahanol grwpiau yng Nghymru, rhwng misoedd Mai a Thachwedd 2022.

Methodoleg

Bu cyfranogwyr 16-24 oed o bob cwr o Gymru yn cymryd rhan yn y sgysiau hyn, gan gynnwys **De, Gorllewin, Gogledd a Chanolbarth Cymru**. Cynhaliwyd y sgysiau â phobl ifanc a oedd mewn addysg cyflogaeth neu hyfforddiant (EET), pobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), gofalwyr ifanc, pobl ifanc anabl (gan gynnwys y rheini â chyflyrau iechyd meddwl), troseddwy ifanc, pobl ifanc ag anghenion gofal plant, pobl ifanc sydd wedi eu hallgáu yn ddigidol, pobl ifanc mewn gofal, rheini sydd wedi gadael gofal, pobl ifanc a oedd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid/ceiswyr lloches, rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn LGBTQ+, a chyfuniad o siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys **tair cydran wahanol**; mae'r adroddiad hwn yn cyfuno'r sylwadau o bob un o'r tair cydran:

a) Grwpiau ffocws ansoddol (n=40 o gyfranogwyr mewn saith grŵp), a gynhaliwyd gan Beaufort Research ym mis Mehefin 2022

b) Arolwg omnibws meintiol ar-lein (n=129), a gynhaliwyd gan Beaufort Research ym mis Mehefin 2022

c) Trafodaethau ansoddol (tua n=100 o gyfranogwyr), a gynhaliwyd gan ddarparwyr hyfforddiant, gweithwyr ieuencid ac arweinwyr sefydliadau cefnogi perthnasol ledled Cymru ym misoedd Hydref a Thachwedd 2022.

Er bod yr astudiaeth hon wedi ceisio cynnwys safbwyntiau amrywiaeth eang o bobl ifanc, mae'n bwysig nodi bod y cydrannau ansoddol yn golygu nad yw'r safbwyntiau a amlinellir wir yn cynrychioli poblogaeth ifanc Cymru yn gyfrannol. Felly, mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn - yn enwedig y trafodaethau ansoddol - yn rhai enghreifftiol yn hytrach na rhai cynrychioladol.

Tynnwyd sylw at ddata meintiol yng nghorff yr adroddiad lle mae'n berthnasol. Mae'r tablau data llawn ar gael drwy wneud cais amdanynt.

1. Grwpiau ffocws ansoddol a gynhaliwyd gan Beaufort Research

Roedd y gydran hon yn cynnwys cymysgedd o grwpiau ffocws ar-lein, triad ar-lein, a thrafodaethau pâr,

Ffigur 1: Sampl Manwl o Grwpiau Ffocws Ansoddol

	Amgylchiadau	Oed	Dull
1	Mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (EET)	16-18	Grŵp ffocws ar-lein (7 cyfranogwr, drwy gyfrwng y Gymraeg)
2	Heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) / â phrofiad o fod yn NEET yn ddiweddar	16-18	Grŵp ffocws triad ar-lein, cyfweiliad unigol ar-lein (4 cyfranogwr)
3	EET	19-24	Grŵp ffocws ar-lein (8 cyfranogwr)
4	NEET / â phrofiad o fod yn NEET yn ddiweddar	19-24	Grŵp ffocws ar-lein (5 cyfranogwr)
5	Gofalwyr ifanc	16-18	Grŵp ffocws wyneb yn wyneb (7 cyfranogwr)
6	Pobl ifanc sy'n ddigartref / sydd â phrofiad o fod yn ddigartref / sy'n wynebu risg	16-24	Grŵp ffocws triad ar-lein, cyfweiliad ffôn (4 cyfranogwr)
7	Pobl ifanc anabl	16-24	Trafodaeth triad ar-lein, cyfweiliad pâr ar-lein (5 cyfranogwr)

ynghyd â chyfweliad grŵp ffocws wyneb yn wyneb a chyfweliad ffôn (gweler Ffigur 1). Mewn ychydig o achosion, roedd gweithwyr cymorth y cyfranogwyr yn bresennol yn y trafodaethau hefyd. Roedd hyn yn help i wneud i'r cyfranogwyr deimlo'n gyfforddus, ac roedd hefyd yn darparu gwybodaeth gyd-destunol ambell waith, os oedd yn berthnasol.

Cafodd y cyfranogwyr a oedd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (EET) eu recriwtio gan ddefnyddio rhwydwaith o recriwtwyr ansoddol a oedd yn dilyn sgrïpt a manyleb recriwtio y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru. Cafodd gweddill y cyfranogwyr eu recriwtio drwy gysylltu â sefydliadau sy'n cefnogi pobl ifanc a thrwy rwydwaith recriwtio Beaufort.

2. Arolwg omnibws a gynhaliwyd gan Beaufort Research

Lluniwyd y sampl Omnibws **i fod yn gynrychioladol o'r boblogaeth** oedolion 16 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru. Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer arolwg mis Mehefin 2022 rhwng 6 – 26 Mehefin 2022. Cafodd cyfanswm o 1,000 o gyfweiliadau eu cwblhau a'u dadansoddi. Atebwyd cwestiynau ar gyfer arolwg Sgwrs Genedlaethol y Warant gan 129 o gyfranogwyr 16 – 24 oed.

Cynhaliwyd cyfweiliadau ar-lein gan ddefnyddio plattform cyfnewid panel ar-lein Cint. Mae'r plattform Cint a'i gynhyrchion yn cydymffurfio â safonau ESOMAR, MRS, ARF, MRIA, AMA, AMSRO ac Insights Association. Mae Cint hefyd yn cydymffurfio ag ISO 20252. Mae nifer o wiriadau ansawdd data wedi'u hymgorffori yn system Cint, gan gynnwys gwiriad GEO IP a CAPTCHA ar adeg cofrestru, a gwiriadau adnabod ymatebwyr unigryw ac ymddygiad twyllodrus. Yn ychwanegol at hyn mae Beaufort yn ymgorffori ei gwestiynau a'i fesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg ac yn cau cyfranogwyr sy'n methu'r profion hyn allan.

Roedd yr arolwg yn cynnwys mesurau rheoli cwota demograffig sy'n rhyng-gloi, ar ffurf oedran o fewn y rhywiau. Gosodwyd mesurau rheoli cwota ar wahân ar ddosbarthiadau cymdeithasol, a chwblhawyd holiaduron gan breswylwyr ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Cynlluniwyd arolygon ar-lein i'w llenwi ar gyfrifiaduron personol/lechen a ffonau clyfar, a chynigiwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg o bob un i bob ymatebydd.

Pwysolwyd y data yn ôl grŵp oedran, rhywedd, grŵp Awdurdod Lleol a dosbarth cymdeithasol i gyfateb i ffigurau Cyfrifiad 2011 a sicrhau eu bod yn gwbl gynrychioladol o'r boblogaeth oedolion (16+) yng Nghymru.

Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli data lle mae maint y sylfaen yn arbennig o fach. Mae'r canlynol yn ganllaw sy'n dangos y cyfyngau hyder sydd ynghlwm wrth wahanol feintiau sampl (sy'n dangos cyfyngau hyder lle byddai'r canlyniadau yn 50% ac yn 10 neu'n 90%).

Ffigur 2: Maint sampl heb ei bwysoli

Cyfwng Hyder 95% (heb gynnwys ffactorau dylunio) ar gyfer gwahanol ganlyniadau gyda gwahanol feintiau sampl:

	1000	100
50%	+/-3.1%	+/-9.8%
10 / 90%	+/-1.9 %	+/-5.9 %

Er enghraifft, os bydd 90% o sampl o 1,000 yn ateb "le" i gwestiwn, gallwn ni fod 95% yn sicr bod rhwng 88.1% a 91.9% o'r boblogaeth yn meddu ar yr un farn (h.y. +/- 1.9%). Fodd bynnag, os bydd 90% o sampl o 100 yn ateb "le" i gwestiwn, gallwn ni fod 95% yn si r bod rhwng 84.1% a 95.9% o'r boblogaeth yn meddu ar yr un farn (h.y. +/- 5.9%), ac ati.

3. Trafodaethau Ansoddol

Datblygodd Golley Slater a Llywodraeth Cymru holiadur ansoddol penagored syml. Recriwtiodd Llywodraeth Cymru sawl mudiad gwirfoddol, grwpiau ieuencid a darparwyr hyfforddiant i gynnal grwpiau ffocws a dychwelyd y canlyniadau yn defnyddio templed yr holiadur. Dychwelyd y canlyniadau i Golley Slater i gael eu dadansoddi a'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Roedd natur y dull gweithredu hwn yn golygu nad oedd manylebau sampl na chwotâu wedi'u gosod. Cafwyd ymatebion gan dri Awdurdod Lleol gwahanol sydd

yn darparu'r rhaglen Cymunedau am Waith; un arall a gynhaliodd gr p ffocws drwy ei wasanaeth ieuencid; darparwr hyfforddiant preifat; a gwasanaeth ieuencid gwirfoddol â phobl ifanc o wahanol oeddrannau, statws gwaith, rhyw ac â gwahanol brofiad o gefnogaeth. Roedd rhai cyfranogwyr hefyd a oedd wedi'u recriwtio gan elusen a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc agored i niwed.

Mae geiriau'r ymatebion wedi'u hanonymieiddio yn bwrpasol er mwyn sicrhau nad oes modd adnabod unrhyw gyfranogwr neu sefydliad cefnogi. Er hyn, roedd yn amlwg o'r adborth a gafwyd yn y trafodaethau bod cael rhywun yr oeddent yn gyfarwydd ag ef, ac yn gallu ymddiried ynddo, i fynd â nhw drwy'r cwestiynau, yn arwain at ymatebion gonest a manwl am faterion personol.

Llif y Drafodaeth

Roedd y cwestiynau a'r sgysiau ym mhob cydran ymchwil yn dilyn themâu tebyg, gan gynnwys: **profiadau pobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant**, ynghyd â hwylyswyr a chefnogaeth gadarnhaol, rhwystrau a wynebwyd, dyheadau, y gefnogaeth y byddent yn hoffi ei chael ag addysg, hyfforddiant a gwaith, a barn ynglŷn â chyrraedd pobl ifanc â chyfathrebiadau am gefnogaeth.

Cafodd y canllawiau trafod a ddefnyddiwyd yng nghyfweliadau Beaufort eu cynllunio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn **sicrhau bod sgysiau'n llifo'n rhwydd**.

Roedd y cwestiynau yn y ffurflen adborth a anfonwyd at fudiadau yn cynnwys cyfres o bwyntiau a fyddai'n helpu'r rhai a oedd yn cynnal y trafodaethau i wneud i bobl ifanc deimlo'n gyfforddus wrth roi eu barn.

Roedd yr arolwg omnibws yn cynnwys cwestiynau caeedig a phenagored a oedd yn rhoi sylw i'r un pynciau.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Eu Dyheadau

Roedd dyheadau'r bobl ifanc 16-24 oed yn amrywio. Roedd rhai'n canolbwyntio ar elfennau o'u llwybr ar gyfer y dyfodol, ac eraill yn canolbwyntio ar y gyrfaoedd y byddent yn hoffi eu cael yn y pen draw. Roedd lefelau hyder ynglŷn â chyflawni'r nodau hyn yn amrywio. Roedd ar lawer o'r cyfranogwyr angen mwy o sefydlogrwydd a threfn yn eu bywyd bob dydd cyn y gallent ddechrau canolbwyntio ar eu llwybr addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Rhwystrau a oedd yn Atal Mynediad at Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant

Roedd nifer o rwystrau yn atal pobl ifanc rhag manteisio ar gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. **Dim ond 5% o'r bobl ifanc 16-24 oed a oedd wedi ymgeisio am swydd neu geisio dechrau cwrs newydd/hyfforddiant a ddywedodd nad oeddent wedi wynebu unrhyw rwystrau o gwbl.** Roedd llawer o'r rhwystrau hyn yn teimlo fel rhai a oedd y tu hwnt i'w rheolaeth i raddau helaeth, er enghraifft, amgylchiadau personol a phroblemau iechyd, dim gwybodaeth am lwybrau a/ neu ddim cefnogaeth ar lwybr, ac effaith y pandemig ar eu haddysg a'u lles.

Ymwybyddiaeth o'r Gefnogaeth sydd ar gael

Roedd ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc 16-24 oed yng nghyswllt addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn isel, ac roedd llawer o'r cyfranogwyr yn tueddu i ddweud **nad oeddent yn ymwybodol iawn o gefnogaeth a oedd yn targedu pobl ifanc.**

Profiadau Cadarnhaol o Gefnogaeth

Ar nodyn cadarnhaol, roedd y rhai a oedd wedi cael cyngor neu gefnogaeth gan sefydliad neu bobl eraill yn teimlo ei fod wedi eu helpu 'ychydig' (50%) neu 'lawer' (44%) i wneud y cwrs/hyfforddiant neu i gael y swydd yr oedd arnynt eu heisiau. Roedd y bobl ifanc a oedd wedi defnyddio sefydliadau cymorth yn aml yn siarad yn gadarnhaol am eu profiadau, yn enwedig lle roeddent wedi datblygu perthynas gyda gweithiwr unigol/gweithiwr cymorth yr oeddent yn ymddiried ynddo ac wedi gallu siarad yn agored ag ef. Roedd arwyddion hefyd **bod cael profiad llwyddiannus o gefnogaeth yn helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau sy'n atal mynediad,** er enghraifft drwy gynyddu hyder, lleihau gorbryder a helpu â gwybodaeth am lwybrau/pa gamau i'w cymryd nesaf.

Y Gefnogaeth sydd ei Hangen

Roedd nifer o feysydd lle'r oedd pobl ifanc 16-24 oed yn dweud y byddai'n fuddiol cael help neu gefnogaeth. **'Help i feithrin hyder'** oedd y prif faes lle roeddent yn teimlo bod arnynt angen help neu gefnogaeth. Roedd y cyfranogwyr yn dweud y byddent yn elwa o gael cefnogaeth fwy **teilwredig yn yr ysgol/yn gynharach ar y daith,** yn benodol i'r unigolyn a'i anghenion/sefyllfa. Gwnaethpwyd rhai ceisiadau am gysylltiadau mwy diriaethol rhwng yr hyn oedd yn cael ei addysgu yn yr ysgol a beth y gallent ei wneud fel gwaith yn y dyfodol, i'w hysgogi a'u hysbrydoli.

Ymgysylltu â Phobl Ifanc yn fwy Effeithiol

Mae pobl ifanc eisiau i'w cymorth ar gyfer eu haddysg/hyfforddiant/cyflogaeth fod **yn fwy rhagweithiol** ac yn haws iddyn nhw gael gafael ar y cymorth hwnnw. Mae'r adborth gan bobl ifanc yn dangos bod gwella'r ymgysylltiad â nhw yn gwneud i'w hymwybyddiaeth o sefydliadau cymorth - a'u mynediad atynt - yn debygol o gynyddu. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gellir ymgysylltu'n well drwy ddefnyddio sianeli mae pobl ifanc yn eu defnyddio; defnyddio fformatau difyr; gwneud y gorau o'r negeseuon a'r cynnwys sydd ar gael; gwneud y gorau o ddylunio; ac ystyried rôl hunaniaeth noddwyr. Mae trafodaethau â phobl ifanc yn awgrymu bod angen rhoi sylw hefyd i gyd-destun cyffredinol cael gafael ar gymorth, a **lleihau'r stigma** sy'n gysylltiedig â hyn.



1.0
EU DYHEADAU



1.1 Dyheadau Tymor Byr

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn yr arolwg omnibws pa addysg, hyfforddiant, neu nodau a oedd ganddynt o ran swyddi, os oedd ganddynt rai, ar gyfer y 12 mis nesaf (digymell), ac roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

- Dywedodd **19%** dim/dim byd/ doedd ganddyn nhw ddim;
- Cyfeiriodd **13%** at ddyheadau penodol o ran swyddi;
- Dywedodd **12%** nad oedden nhw'n gwybod/nad oedden nhw'n gallu cofio;
- Roedd ar **12%** eisiau gorffen eu gradd/graddio o brifysgol;
- Roedd ar **10%** eisiau cwblhau eu hyfforddiant.

Roedd yr adborth o'r trafodaethau ansoddol â phobl ifanc a gynhaliwyd gan ddarparwyr hyfforddiant, gweithwyr ieuencid ac arweinwyr sefydliadau cymorth yn adleisio'r ystod hon o ddyheadau. **Roedd gan eraill awydd cyffredinol i 'weithio' neu 'astudio' ond eu bod yn ansicr ynglŷn â'r manylion.**

"Dim nodau gyrfa yn y 12 mis nesaf ... Dim byd, unrhyw fath o waith ... Dw i ddim yn gwybod. Mi fyddwn i'n hoffi gwneud yn well yn fy ngwaith a chael fy nhŷ fy hun ... Yn y tymor byr, fy nod ydy cael swydd a'i chadw hi." (Person ifanc, 16-24)

Roedd rhai wedi cyrraedd pwynt lle'r oedd ganddynt rywbeth oedd 'yn ddigon da am nawr' ac nid oeddent yn dyheu am fwy ar hyn o bryd.

"Dw i newydd gael gwaith yn Tesco ac mae o'n fy siwtio i'n iawn am rwan." (Person ifanc, 16-24)

Roedd eraill yn canolbwyntio ar ddyhead am swydd arbennig, a allai olygu nifer o wahanol gamau.

"Ymhen blwyddyn mi faswn i'n hoffi bod yn gwneud prentisiaeth mewn TG, lle bydda i'n dysgu mwy, yn cael profiad gwaith, yn cael gradd ar ddiwedd y flwyddyn ac yn cael fy nhalu." (Person ifanc, 16-24)

"Yn y tymor byr, dw i'n gobeithio gorffen fy mhrentisiaeth L4 erbyn Mawrth 2023, ac ar ôl hynny dw i'n gobeithio gwneud cyrsiau mewnol a pharhau â'r hyfforddiant." (Person ifanc, 16-24)

Roedd gan rai cyfranogwyr nod mwy penodol, a oedd yn aml yn gam tuag at gyflawni eu dyheadau hirdymor. Gallai hyn gynnwys mynd i apwyntiadau; cyfarfod mentor cyflogaeth; gwneud CV; dod o hyd i rywle i fyw; ac, yn achos un cyfranogwr o leiaf, gadael ei dŷ (roedd yn methu â gwneud hyn oherwydd gorbryder).

Roedd yno hefyd rai newidiadau ymddygiadol dydd i ddydd syml, a chymharol sylfaenol y byddai pobl ifanc yn hoffi eu gwneud er mwyn gwella eu lles cyffredinol, gan gydnabod y byddai hyn yn eu gwneud yn fwy tebygol o gyflawni eu nodau:

- Treulio llai o amser yn edrych ar sgrin (ffôn symudol);
- Bod yn fwy cynhyrchiol o gwmpas y tŷ;
- Gwneud mwy o ymarfer corff a bwyta'n iachach;
- Gwella cwsig/patrwm cysgu;
- Cael mwy o hyder.

Fodd bynnag, ar ôl holi pobl ifanc ymhellach, datgelwyd mai **ychydig iawn oedd â chynllun gweithredu go iawn** er mwyn gwneud y newidiadau hyn, neu er mwyn cyflawni'r nodau hyn. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu gallai fod bwlich rhwng bwriad a gweithredu.


Ymhlith ffoaduriaid/ceiswyr lloches, roedd pwyslais ar gael rhywfaint o sicrwydd ynglŷn â'u statws, a dysgu siarad Saesneg yn rhugl, a oedd yn cael ei ystyried yn allweddol ar gyfer unrhyw nodau addysg neu

gyflogaeth yn y dyfodol - **'Dim ond Saesneg 'dan ni ei angen'**.

Yn ogystal â'r cwestiwn penagored ynglŷn â'u dyheadau tymor byr, rhoddwyd rhestr o nodau addysg, hyfforddiant a swyddi i gyfranogwyr yr arolwg omnibws a gofynnwyd iddynt pa rai o'r rhain yr oeddent hwy'n bersonol yn bwriadu eu gwneud yn y 12 mis nesaf. Mae eu hymatebion i'w gweld yn Ffigur 3 isod:

Ffigur 3: Cwestiwn Arolwg Omnibws

Dyma ychydig o nodau addysg, hyfforddiant neu swyddi a allai fod gan bobl. Dywedwch wrthym a ydych chi'n bersonol yn bwriadu gwneud pob un yn y 12 mis nesaf.





Ar gyfer pob bwriad/dyhead, roedd gwahaniaethau yn ôl rhanbarth, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol ac a oedden nhw mewn gwaith neu mewn addysg. Tynnwyd sylw at y rhain isod, ond dylid eu trin yn ofalus gan fod segmentu wedi lleihau'r meintiau sampl ymhellach.

Cael cyngor am rolau swyddi / gyrfaoedd

O'r 56% a oedd yn bwriadu cael cyngor am rolau swyddi a gyrfaoedd, roedd mwy o bobl ifanc 16-18 oed (67%) nag o rai 19-24 oed (53%). Fodd bynnag, gallai'r gwahaniaeth hwn fod oherwydd bod y grwp olaf yn fwy tebygol o fod eisoes wedi dewis trywydd gyrfa o ystyried eu hoed hŷn, ac felly nad oes arnynt angen cyngor mwyach. **Roedd pobl ifanc yn Ne Cymru yn fwy tebygol o ofyn am gyngor** na rhai yng Ngogledd/Canolbarth/Gorllewin Cymru (59% o'i gymharu â 49%).

Cael swydd ran-amser

Roedd 72% o'r bobl ifanc 16-18 oed yn bwriadu cael swydd ranamser, o'i gymharu â 37% o'r rhai 19-24 oed. Fodd bynnag, gallai'r gwahaniaeth sylweddol hwn fod oherwydd bod y grwp olaf yn fwy tebygol o fod mewn rhyw fath o gyflogaeth yn barod. Roedd y niferoedd yn uwch yng Ngogledd/Canolbarth/ Gorllewin Cymru (51%) nag yn Ne Cymru (41%), ymhlith gwrywod (50% o'i gymharu â 36% o fenywod) ac ymhlith LGBTQ+ (58% o'i gymharu â 42% o'r rhai heterorywiol/syth).

Cael lleoliad gwaith di-dâl

O'r 43% a oedd yn bwriadu gwneud lleoliad gwaith â thâl yn y 12 mis nesaf, (gweler Ffigur 3) **roedd y bwriadau yn uwch ymhlith pobl ifanc 16-18 oed** (63%) o'i gymharu â rhai 19-24 oed (38%). Roedd mwy o wrywod yn bwriadu gwneud lleoliad gwaith â thâl nag o fenywod (48% o'i gymharu â 33%).

Darganfod mwy am gyrsiau / sefydliadau addysg bellach neu addysg uwch

O'r 40% a oedd yn bwriadu darganfod mwy am gyrsiau / sefydliadau addysg bellach neu uwch, roedd y niferoedd yn uwch ymhlith pobl ifanc 16-18 oed (46%). Roedd pob grŵp arall yn gymharol gyson, rhwng 38% a 41%.

Cael swydd amser llawn

Roedd 53% o'r rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn LGBTQ+ yn bwriadu cael swydd amser llawn, o'i gymharu â 37% o'r rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn heterorywiol/syth. Roedd menywod yn fwy tebygol o fwriadu cael swydd amser llawn na gwrywod (45% o'i gymharu â 38%).

Mynd ymlaen i addysg uwch amser llawn neu ran-amser mewn prifysgol

Roedd y niferoedd yn gymharol gyson er bod mwy o'r rhai 16-18 oed nag o'r rhai 19-24 oed (45% o'i gymharu â 35%). Hefyd 40% o wrywod o'i gymharu â 32% o fenywod, a 40% yn ystyried eu hunain yn LGBTQ+ o'i gymharu â 36% yn ystyried eu hunain yn heterorywiol/syth.

Darganfod am brentisiaethau neu Twf Swyddi Cymru+

O'r 31% a oedd yn bwriadu darganfod mwy am brentisiaethau neu Twf Swyddi Cymru+, (gweler Ffigur 3) **roedd 2 o bob 5 gwryw (40%) 16-24 oed yn bwriadu darganfod mwy am brentisiaethau neu Twf Swyddi Cymru+, o'i gymharu â dim ond 16% o fenywod.** Ar wahân i rywedd, y gwahaniaeth mwyaf arall oedd yn ôl rhanbarth - 36% yn Ne Cymru o'i gymharu â dim ond 19% yng Ngogledd/Canolbarth/Gorllewin Cymru.

Mynd i addysg bellach amser llawn neu ran-amser mewn coleg

O'r rhai a oedd yn bwriadu mynd i addysg bellach amser llawn neu ran-amser mewn coleg yn y 12 mis nesaf, roedd y niferoedd yn uwch yng Ngogledd/Canolbarth/Gorllewin Cymru nag yn Ne Cymru (32% o'i gymharu â 24%), ymhlith pobl ifanc 16-18 oed o'u gymharu â rhai 19-24 oed (37% o'i gymharu â 24%), ac ymhlith y rhai mewn addysg/ddim yn gweithio o'i gymharu â'r rhai a oedd yn gweithio (31% o'i gymharu â 24%).

Gwneud prentisiaeth

O ran eu bwriad i wneud prentisiaeth yn y 12 mis nesaf, roedd y demograffeg yn gymharol debyg i'r rhai yr oedd arnynt eisiau darganfod mwy am brentisiaethau, ond ychydig yn is. Fodd bynnag, roedd gostyngiad ymhlith y rhai 16-18 oed (i lawr i 19%), yn gyson â'r ffaith eu bod yn debygol o ddal i fod yn yr ysgol / coleg ymhen 12 mis. Roedd gostyngiad sylweddol hefyd ymhlith pobl ifanc LGBTQ+ a oedd yn gostwng o 37% i 21% (o'i gymharu â heterorywiol/syth a oedd yn parhau yn 28%).

Gwirfoddoli

Roedd bwriad i wirfoddoli yn amrywio yn ôl rhanbarth (De Cymru 28% o'i gymharu â dim ond 14% yng Ngogledd/Canolbarth/Gorllewin Cymru), rhywedd (benywod 30% o'i gymharu â gwrywod 20%), oedran (25% o rai 19-24 oed o'i gymharu ag 20% o rai 16-18 oed), cyfeiriadedd rhywiol (heterorywiol/syth 26% o'i gymharu ag LGBTQ+ 15%).

Mynd yn hunangyflogedig neu ddechrau fy musnes fy hun

Roedd y rhai a oedd yn bwriadu bod yn hunangyflogedig neu ddechrau eu

busnes eu hunain yn fwy tebygol o ystyried eu hunain yn heterorywiol/syth (27% o'i gymharu â dim ond 4% o rai LGBTQ+), bod yn wrywod (28%) yn hytrach na benywod (13%), yn byw yn Ne Cymru (25%) yn hytrach na Gogledd/Canolbarth/Gorllewin Cymru (18%), yn gweithio (25%) yn hytrach na bod mewn addysg/ddim yn gweithio (18%).

Aros mewn ysgol

O ran y rhai a oedd yn bwriadu aros yn yr ysgol yn ystod y 12 mis nesaf, roedd y nifer hwn yn llawer uwch yng Ngogledd/Canolbarth/Gorllewin Cymru nag yn Ne Cymru (36% o'i gymharu ag 17%). Roedd hefyd yn uwch ymhlith benywod o'i gymharu â gwrywod (27% o'i gymharu â 18%) ac ymhlith LGBTQ+ o'i gymharu â heterorywiol/syth (31% o'i gymharu â 22%).

Gwneud lleoliad gwaith di-dâl

Roedd 22% o'r bobl ifanc 19-24 oed yn bwriadu gwneud lleoliad gwaith di-dâl o'i gymharu â 10% o'r rhai 16-18 oed, a mwy yn Ne Cymru nag yng Ngogledd/Canolbarth/Gorllewin Cymru (23% o'i gymharu â 12%).

Gwneud interniaeth

Roedd 17% o'r bobl ifanc 16-24 oed yn bwriadu gwneud interniaeth yn y 12 mis nesaf. Mae hyn yn uwch ymhlith gwrywod (21% o'i gymharu ag 14% o fenywod) ac yn y grŵp mewn addysg/ddim yn gweithio (28% o'i gymharu â 9% gweithio).

Hyfforddi a datblygu drwy Twf Swyddi Cymru

Roedd bwriadau yn uwch ymhlith y rhai sy'n ystyried eu hunain yn heterorywiol/syth (19%) o'i gymharu ag LGBTQ+ (6%) ac ymhlith y rhai 16-18 oed (23%) o'i gymharu â'r rhai 19-24 oed (15%).

1.2 Dyheadau Hirdymor

O'r trafodaethau ansoddol, roedd arwyddion bod **meddwl y tu hwnt i'r 12 mis nesaf yn aml yn ymddangos yn anodd** i bobl ifanc, a hyd yn oed yn gysyniad braidd yn estron. Nid oeddent o reidrwydd yn gwahaniaethu rhwng dyheadau tymor byr a thymor hir, ac roedd rhai hyd yn oed yn mynegi dyheadau fel 'disgwyliadau'.

"Dw i ddim wedi meddwl am fy mywyd mewn tair blynedd." (Person ifanc, 16-24)

"Y cwbl dw i isio ydy bod yn hapus mewn swydd a chael profiad cyn i mi roi disgwyliadau i fi hun." (Person ifanc, 16-24)

Roedd unrhyw ddyheadau digymell yn gymharol amwys/cyffredinol, yn aml yn canolbwyntio mwy ar ymdeimlad o

sicrwydd nag ar nod neu weledigaeth glir o'r hyn yr oedd arnynt ei eisiau. Roedd rhai o'r nodau yr oeddent yn cyfeirio atynt yn cynnwys: cael trefn reolaidd, cael sicrwydd ariannol, cael iechyd da – corfforol a meddyliol, dechrau gyrru, bod mewn swydd yr oeddent yn ei mwynhau, cael eu cymell i weithio, byw mewn tŷ/fflat (gwel).

"Dw i angen bod yn rhan o'r byd gwaith a bod yn sefydlog mewn gwaith a bywyd a chael patrwm rheolaidd braf." (Person ifanc, 16-24)

Pan roddwyd rhestr o ddyheadau posibl ar gyfer addysg, hyfforddiant neu waith yn yr arolwg omnibws, dywedodd bron i 2 o bob 3 o'r rhai 16-24 oed (64%) y byddent yn hoffi cael swydd amser llawn ymhen tair blynedd (gweler Ffigur 4).

Roedd bron i 1 o bob 3 (28%) eisiau


bod yn hunangyflogedig neu'n rhedeg ei fusnes ei hun. (gweler Ffigur 4). Mae rhestr lawn o'r ymatebion i'w gweld yn y siart a ganlyn:

Roedd rhai gwahaniaethau demograffig o ran y dyheadau mwy hirdymor hyn:

- Roedd yr awydd i fod yn **hunangyflogedig neu'n rhedeg eu busnes eu hunain** yn uwch ymhlith y rhai yng Ngogledd/Canolbarth/Gorllewin Cymru (55% o'i gymharu ag 17% yn Ne Cymru), ac ymhlith y rhai â salwch hirdymor, problem iechyd neu amhariad (41% o'i gymharu â 24% o'r rhai heb salwch hirdymor, problem iechyd neu amhariad).
- Roedd yr awydd i fod mewn **addysg uwch amser llawn neu ran-amser mewn prifysgol** yn uwch ychydig ymhlith pobl ifanc 16-18 oed (30% o'i gymharu ag 19% o rai 19-24 oed).
- Roedd yr awydd i fod mewn **lleoliad gwaith â thâl** yn uwch ymhlith y rhai 16-18 oed (29% o'i gymharu ag 14% o rai 19-24 oed), y rhai â salwch hirdymor, problem iechyd neu amhariad (22% o'i gymharu â 15% o'r rhai heb salwch hirdymor, problem iechyd neu amhariad), benywod (22% o'i gymharu â 12% o wrywod), rhai di-Gymraeg (24% o'i gymharu â 9% o siaradwyr Cymraeg), a'r rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn LGBTQ+ (36% o'i gymharu ag 14% o rai heterorywiol/syth).
- Roedd yr awydd i wneud **prentisiaeth** yn uwch ymhlith pobl ifanc 16-18 oed (36% o'i gymharu â 10% o rai 19-24 oed).
- Roedd yr awydd i fod mewn **addysg bellach amser llawn / rhan-amser mewn coleg** yn uwch ymhlith y rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn LGBTQ+ (20% o'i gymharu â 5% o rai heterorywiol/syth).

Ffigur 4: Cwestiwn Arolwg Omnibws

Gan feddwl am addysg, hyfforddiant neu waith, pa rai o'r rhain, os o gwbl, fydddech chi'n hoffi bod yn eu gwneud ymhen tair blynedd?



Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol



1.3 Gwahanol Fathau o Ddyheadau

Gellid grwpio dyheadau pobl ifanc i'r rhai sy'n canolbwyntio ar addysg a hyfforddiant, y rhai sy'n canolbwyntio ar ddod o hyd i yrfa, y rhai sydd eisiau 'dod o hyd i waith' ac 'ennill arian' sut bynnag y gallant, a'r rhai yr oedd eu dyheadau yn gysylltiedig.

1.3.1 Y rhai sy'n canolbwyntio ar addysg a hyfforddiant

Roedd enghreifftiau o ddyheadau a oedd yn canolbwyntio ar addysg a hyfforddiant weithiau'n cynnwys y nod yr oeddent yn gobeithio y byddai'r addysg a'r hyfforddiant yn eu helpu i'w gyrraedd yn y pen draw, er enghraifft:

- Dod o hyd i **lwybr addas** i symud ymlaen tuag at swydd arbennig lle'r oedd angen hyfforddiant:

“Ar gyfer y dyfodol dw i'n meddwl am fynd i'r coleg eto a gwneud naill ai iechyd a gofal cymdeithasol, neu gwrs mynediad i fynd i nyrsio.” (Cyfranogwr NEET, 16-18)

“Dw i'n dal i chwilio am waith ... Mae gen i ddiddordeb mewn mynd yn ôl i'r coleg a gwneud cwrs harddwch. Ond dw i ddim wedi edrych i mewn i hynny eto.” (Cyfranogwr digartref, 16-24)

- Cael graddau da mewn addysg a oedd yn adlewyrchu ei alluoedd (y ffaith ei fod yn ofalwr ifanc yn ei atal ar hyn o bryd):

“Yr unig beth 'dach chi isio ei 'neud ydy mynd drwy'r ysgol uwchradd, cael graddau da, a **gwneud y gorau i chi eich hun ac i'r person 'dach chi'n gofalu amdano.** Ac mae popeth yn eich rhwystro chi, ac yn creu rhwystr arall a chlwyd arall, ac mae'n ofnadwy.” (Gofalwr ifanc, 16-18)

- Mynd i brifysgol rywbryd, neu gwblhau gradd gyfredol yn llwyddiannus.



1.3.2 Y rhai sy'n canolbwyntio ar yrfa

Roedd rhai o'r gyrfaoedd yr oedd y cyfranogwyr yn dyheu amdanynt ym maes iechyd, gofal, neu swyddi iwnifform, megis gofal cymdeithasol, nyrsio, 'rhywbeth meddygol', gofal plant (gan gynnwys cefnogi plant ag anghenion arbennig), yr heddlu, y fyddin, a'r RAF.

“**Mae pobl yn dweud bod prifysgol yn agor drysau i chi, felly dyna'r unig reswm pam dw i isio mynd.** Fy nod yn y pen draw yw ymuno â'r RAF.” (Cyfranogwr NEET, 16-18)

“Pan fydd fy mab yn hŷn, dw i isio bod yn ofalwr. Dw i isio gofalu am bobl hŷn, achos dw i'n mwynhau gwneud hynny. Dyna be dw i isio ei wneud, a dw i'n mynd i wneud hynny.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

Roedd gan rai hefyd ddiddordeb mewn gweithio gydag anifeiliaid, er enghraifft mewn practis milfeddygol, sw neu ym maes amaeth efallai. Roedd y gyrfaoedd penodol eraill a grybwyllwyd yn amrywio, ac yn cynnwys gweithio fel mecanig, gosodwr carpedi, weldiwr, ymarferydd harddwch, triniwr gwallt, darlunydd llawrydd, garddwr tirwedd.

“Gobeithio rhyw job i neud hefo weldio 'na i enjoio gobeithio.” (Cyfranogwr EET, 16-18)

Siaradodd rhai hefyd am fynd i 'faes' gwaith cyfredinol, er enghraifft, arlwy, tai, actio, cyfrifiaduron, gweithio mewn gwesty.

“Dw i isio gweithio efo cyfrifiaduron.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd eraill yn gobeithio bod yn hunangyflogedig a chychwyn busnes o ryw fath. Roedd ar un hefyd eisiau bod yn athletwr proffesiynol.

“Faswn i'n licio gwneud rhywbeth i 'neud efo harddwch, pethau dw i'n gallu mwynhau eu gwneud yn fy amser fy hun. Dw i ddim yn gwybod... Fy mreuddwyd oedd cael fy nghwmni bach fy hun yn gwneud ewinedd, a phethau felly. Rhywbeth tebyg i hynny gobeithio.” (Cyfranogwr digartref, 16-24)

“Dw i'n gwybod bo fi isio bod yn hunangyflogedig, ond mae'n dibynnu o safbwynt ariannol be fyddai'n gwneud fwyaf o synnwyr ar y pryd mae'n debyg. Ond yn y pen draw mi faswn i'n licio cael fy salon fy hun, hyd yn oed taswn i'n gweithio ar fy mhen fy hun.” (Cyfranogwr EET, 19-24)

Roedd un cyfranogwr anabl yn awyddus i fod yn **eiriolwr dros bobl anabl** a gallu siarad â'r llywodraeth am hyn.

“Siarad ar ran pobl sydd heb lais mewn gwirionedd, ... Llywodraeth Cymru a helpu, mewn gwirionedd dangos i bobl bod gan bobl sydd ag anabledd eu meddyliau eu hunain a'n bod ni'n gwybod be 'dan ni isio a be 'dan ni ddim isio a stopio ein trin ni fel ... Mae rhai pobl wedi bod yn ein trin ni fel tasan ni'n dwp.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

1.3.3 Y rhai sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth

Roedd rhai yn poeni llai am yrfaeodol penodol ac yn canolbwyntio mwy ar **ennill arian**. Byddai hyn yn rhoi rhywfaint o **sefydlogrwydd** a gallai olygu nad oes rhaid dibynnu ar fudd-daliadau. Roedd rhai'n cydnabod nad oeddent yn gwybod beth yn benodol roedd arnynt eisiau ei wneud, ar wahân i 'weithio'.

Er bod rhai pobl ifanc yn dweud y byddent yn hoffi cael **profiad gwaith**, ychydig o gynlluniau neu syniadau penodol a oedd ganddynt ynglŷn â sut i symud ymlaen â hyn, os o gwbl.

“Does dim byd penodol dw i hyd yn oed yn chwilio amdano, dim ond rhywbeth sy'n talu, yn y bôn. Dw i ddim ond isio bod yn gweithio, a dw i'n teimlo y bydd fy opsiynau yn agor i mi o hynny.” (Cyfranogwr NEET, 19-24)

“Faswn i'n licio bod yn sefydlog, dim ond er mwyn cael lle i mi fy hun.” (Gofalwr ifanc, 16-18)

“Ateb gonest? Does gen i ddim syniad ar hyn o bryd, dim syniad... Fy nghynllun delfrydol fyddai cael gwaith, ond wrth gwrs does gen i ddim syniad beth ar hyn o bryd.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

“Mae gen i ddiddordeb mewn ffotograffiaeth a hanes ac mi faswn i'n licio cael gwaith ond dw i ddim yn siŵr be dw i isio ei wneud” (Person ifanc, 16-24)

“Dw i ddim ond isio cael profiad a chael swydd a bod yn llwyddiannus ynddi.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd rhai'n gweld **prentisiaethau fel cam defnyddiol ymlaen** er mwyn cael yr yrfa o'u dewis. Roedd teimlad cyffredinol

bod prentisiaethau'n rhoi sgiliau ymarferol i bobl ifanc ac yn agor drysau.

“Y peth da am brentisiaethau ydy eu bod nhw'n rhoi sgiliau uwch i chi, achos dydy cyrsiau coleg ddim yn darparu sgiliau yn llawn i ddysgwyr.” (Person ifanc, 16-24)

Er hyn, cyfeiriodd ambell un a oedd yn y broses o wneud prentisiaeth at broblemau wrth geisio cyfuno prentisiaeth â gwaith.

“Mae trio cyfuno swydd brysur a chwblhau prentisiaeth yn her, ac yn aml iawn mae'n anodd cael amser i wneud fy ngwaith cwrs. Her arall â phrentisiaethau ydy'r cynnydd mewn dysgu o bell a chael cyfarfodydd misol yn unig, mae gormod o amser rhwng ymweliadau i allu cadw diddordeb a dal i fyny efo'r dysgu.” (Person ifanc, 16-24)

1.3.4 Y rhai sydd â dyheadau cysylltiedig

Roedd achosion lle'r oedd pobl ifanc yn disgrifio dyheadau eraill a fyddai'n gysylltiedig â **gwella eu rhagolygon** ar gyfer addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Roedd rhai'n dweud bod arnynt eisiau gwella eu hamgylchiadau a'u **datblygiad personol**, er enghraifft gallu byw'n annibynnol a gallu rheoli arian yn annibynnol. Roedd cael **mwyr o hyder** ynddyn nhw eu hunain yn thema gyffredin ac yn cael ei gweld fel nod arwyddocaol i lawer.

“Dw i'n meddwl mai cael swydd a chael mwyr o hyder a siarad o flaen pobl [ydy fy nyhead].” (Cyfranogwr digartref, 16-24)

“Dw i'n chwilio am swydd ddiogel ac yn gobeithio y bydda i'n gyrru car ac yn byw mewn cartref sefydlog” (Person ifanc, 16-24)

1.4 Hyder ynglŷn â Chyflawni Dyheadau

Roedd diffyg hyder, a hunanhyder/hunan-dyb, yn rhywbeth y cyfeiriodd llawer o bobl ifanc ato yn ystod y trafodaethau, ac yn faes lle byddai help yn cael ei werthfawrogi. O ran cyflawni eu dyheadau, roedd lefelau hyder yn amrywio ar draws y sampl:

- Roedd 1 o bob 2 berson ifanc 16-24 oed (49%) yn cytuno **nad oeddent yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda i wneud y cwrs neu i gael y swydd yr oedd arnynt ei heisiau**. Roedd hyn yn codi i 60% ymhlith gwrywod ac yn gostwng i 35% ymhlith menywod.
- Roedd 56% o'r bobl ifanc 16-24 oed yn dweud eu bod yn **teimlo'n hyderus y gallent wneud y cwrs neu gael y swydd yr oedd arnynt ei heisiau**. Roedd hyn yn uwch ymhlith pobl ifanc 16-18 oed (63%) a'r rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn heterorywiol/syth (61%) ond yn is ymhlith y rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn LGBTQ+ (33%).
- Roedd ychydig dros 1 o bob 3 pherson ifanc 16-24 oed (36%) yn teimlo yn **llai hyderus y gallent wneud y cwrs/cael y swydd yr oedd arnynt ei heisiau oherwydd pandemig Covid-19** (ac roedd 34% nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, sy'n awgrymu nad oeddent yn siŵr). Roedd y gostyngiad mewn hyder yn fwy ymhlith y rhai a oedd yn byw yng Ngogledd/Canolbarth/Gorllewin Cymru (42%, o'i gymharu â chanran ychydig yn is o 33% yn Ne Cymru), a'r rhai 16-18 oed (51%, o'i gymharu â chanran is o 33% ar gyfer y rhai 19-24 oed).
- Teimlai 52% o'r bobl ifanc 16-24 oed eu bod yn **gwybod ble i gael cyngor neu gefnogaeth** i'w helpu i wneud y cwrs neu i gael y swydd yr oedd arnynt ei heisiau. Roedd hyn yn uwch

yng Ngogledd/Canolbarth/Gorllewin Cymru (68%, o'i gymharu â 45% yn Ne Cymru), ymhlith pobl ifanc 16-18 oed (73%, o'i gymharu â 47% ymhlith pobl ifanc 19-24 oed) ac ar gyfer y rhai a oedd yn gweithio (57%, o'i gymharu â 43% mewn addysg/ddim yn gweithio).

Roedd rhai yn dweud eu bod yn teimlo'n **gymharol hyderus oherwydd y gefnogaeth roeddent yn ei cael yn barod** (er ei bod yn gefnogaeth ad hoc yn aml) a'r **cynnydd roeddent yn ei wneud** gyda'u hastudiaethau. Mewn un achos, roedd un cyfranogwr a oedd wedi gadael y coleg yn hyderus ar ôl siarad â chynghorwr ei goleg blaenorol am ddewisiadau eraill yn lle Safon Uwch er mwyn mynd ymlaen i nyrsio. Roedd un arall yn teimlo'n weddol hyderus oherwydd ei **wytnwch a'i benderfyniad** ei hun, er gwaethaf amgylchiadau anffafriol, yn ogystal â chredu y gallai aelod o'r teulu â phrofiad helpu.

“Mam fy mhartner, mae hi'n dda iawn am helpu pobl, fel ei swydd, achos mae hi'n broffesiynol yn y math yna o waith ac ati. Felly, mae'n debyg y byddwn i'n mynd i ofyn iddi hi, mae hi'n gwybod mwy am [ofal cymdeithasol].” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

Roedd nifer fach yn dechrau teimlo'n fwy hyderus gan fod y sefydliadau a oedd yn eu cefnogi wedi eu helpu i ddechrau gwneud cymwysterau lefel mynediad. Roedd cael aelod o'r teulu a oedd yn darparu cymhelliant i symud ymlaen a/neu a oedd yn gefnogol hefyd yn codi eu lefelau hyder.

Fodd bynnag, gwnaethpwyd y pwynt gan rai o'r gweithwyr cymorth eu bod yn gweld llawer o **bobl ifanc nad oedd ganddynt rwydwaith cadarnhaol/perthnasau i ddylanwadu arnynt,**

ac a oedd felly'n dibynnu ar weithwyr proffesiynol i ddarparu hyn.

Roedd ymdeimlad bod llawer o bobl ifanc yn teimlo na allent fabwysiadu persbectif mwy hirdymor, neu weithio tuag at nodau, gan fod cynifer o rwystrau yn eu hatal rhag eu cyflawni ac nad oeddent yn teimlo bod ganddynt reolaeth dros beth allai ddigwydd nesaf a pha opsiynau allai fod yn agored iddynt o ganlyniad.





2.0
RHWYSTRAU SY’N
ATAL MYNEDIAD AT
ADDYSG, CYFLOGAETH
A HYFFORDDIANT

Dyma eiriau a ddefnyddiwyd gan rai o'r cyfranogwyr i **grynhoi eu profiadau** o gael mynediad at yr addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yr oedd arnynt ei eisiau. Dim ond nifer fach o ymadroddion cadarnhaol a ddefnyddiwyd, ac roedd y rheiny ymhlith y rhai a oedd eisoes mewn addysg, cyflogaeth, neu hyfforddiant.

**RHWYSTREDIG
ANNHEG HUNLLEF
GWALLGOF HER
GWEDDOL HAWDD
AGONISING ANNHEG
CYLCHOEDD GARW
DDIM YN HAWDD
STRAEN CEFNOGOL
ANNIFYR DRYSLYD
OFNADWY ANODD
ANNIDDOROL**

Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol

Mae'r dyfyniad isod yn crynhoi thema amlwg yn ymwneud â'r her o ddeall y dirwedd addysg, cyflogaeth, a hyfforddiant:

"Mae fel darnau Lego, ond bod y cyfarwyddiadau ar goll, a does gennych chi ddim byd ond yr holl bethau yma, a does dim clw o unrhyw fath sut i ddod â'r darnau at ei gilydd. Ac yn y pen draw, 'dych chi'n rhoi'r ffidil yn y to achos does gennych chi ddim clem." (Cyfranogwr NEET, 16-18)

Gofynnwyd i gyfranogwyr yn yr arolwg omnibws beth, os rhywbeth, oedd yn ei gwneud hi'n anodd iddynt ddechrau cwrs/hyfforddiant newydd neu gael swydd. Roedd eu hymatebion digymell yn cynnwys:


- Covid-19/cyfyngiadau Covid-19/pryder ynglŷn â phandemig arall (14%)
- Dim digon o swyddi/cyfleoedd (12%)
- Gorbryder/problemâu iechyd meddwl (12%)
- Diffyg profiad (11%).

Pan gawsant eu cymell, **dim ond 5% o'r bobl ifanc 16-24 oed a ymgeisiodd am swydd neu a geisiodd ddechrau cwrs/hyfforddiant newydd ddywedodd nad oeddent wedi wynebu unrhyw rwystrau o gwbl** (gweler Ffigur 5). Y rhwystrau mwyaf (a brofwyd gan tua 1 o bob 3 person ifanc) oedd problemau trafniadaeth (41%), diffyg hyder (38%), dim profiad gwaith (36%), a'u hoed (31%).

Mae ymatebion i'r rhestr lawn o rwystrau i'w gweld yn Ffigur 5 isod:

Ffigur 5: Cwestiwn Arolwg Omnibws

Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, sy'n rhwystrau neu sy'n ei gwneud hi'n anodd i chi ddechrau cwrs / hyfforddiant newydd neu gael swydd?



2.1 Amgylchiadau Personol a Phroblemau Iechyd

Roedd y rhwystrau a wynebid wrth geisio dod o hyd i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn cael eu gwaethygu'n aml oherwydd amgylchiadau **personol anodd a phroblemau iechyd**.

2.1.1 Bywyd cartref

Cafwyd cyfeiriadau at fywyd cartref annifyr gyda rhieni, a pherthnasoedd yn chwalu, a hynny'n achosi i bobl ifanc orfod gadael eu cartref.

“Ers gadael yr ysgol dw i wedi dioddef yn ddifrifol efo fy iechyd meddwl, dw i wedi symud o gartref y teulu oherwydd problemau a dw i ddim yn cael mynd yn ôl na bod yn ôl yn [lleoliad]. Dw i'n ymdopi'n dda ar fy mhen fy hun ac yn byw mewn tŷ â chymorth.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd un cyfranogwr wedi ceisio mynd i'r coleg ond heb ei fwynhau, felly roedd wedi troi at gyffuriau ac alcohol. O ganlyniad, roedd wedi bod yn anodd iawn i'r cyfranogwr hwn gael swydd gan nad oedd ganddo gymwysterau.

“Es i drwy gyfnod drwg iawn gyda fy nghyn-bartner. Pan oedden ni'n defnyddio cyffuriau, ro'n i'n llythrennol yn gwastraffu fy mywyd ac ro'n i, ti'n gwybod, do'n i ddim eisiau mynd i'r coleg ... Drwy'r adeg o'n i ddim ond yn cymryd cyffuriau a ballu.” (Cyfranogwr digartref, 16-24)

I un o'r ymatebwyr, roedd cael cofnod troseddol yn rhwystr (real neu dybiedig) a oedd yn ei atal rhag dod o hyd i waith.

“Roedd gen i rwystr lle roedd pobl yn gweld fy record ac yn cymryd yn ganiataol mod i'n achosi trwbl.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd enghraifft o sefyllfa yn gwella

lle'r oedd cyfranogwr yn ei arddedgau a oedd yn arfer bod yn ddiartref wedi cyfarfod partner newydd a oedd â phlant. Roedd hyn yn rhoi sefydlogrwydd i'r cyfranogwr, ond roedd yn golygu y byddai dyletswyddau gofal plant newydd yn achosi anawsterau presenoldeb yn y coleg. Rhwystr arall i fam sengl ifanc oedd y teimlad o **stigma a chael ei labelu'n 'ddiog' gan gymdeithas**.

Yn ychwanegu at hyn, nid oedd yn ymddangos bod llwybr amlwg i riant â babi a oedd eisiau gweithio, a disgwylid na fyddai cyflogwyr yn debygol o gyflogi rhywun â babi ifanc.

“Fy mhroblem fwyaf ar hyn o bryd yw gofal plant. Dw i wedi cael cynnig cyrsiau, ond dw i ddim wedi gallu mynd arny'n nhw oherwydd gofal plant. Byddai opsiynau gofal plant mwy hygyrch yn help.” (Person ifanc, 16-24)

Thema gyffredin oedd bod gofalwyr ifanc yn canfod eu hunain yn gorfod rhoi cyfrifoldebau gofalu am rieni o flaen eu cyfleoedd addysg a chyflogaeth. Gallai tensiynau godi yn yr ysgol, er enghraifft ag athrawon yn dod i'r cartref i geisio mynd â'r cyfranogwr i'r ysgol, yn ogystal â pheidio â chael cynnig yr opsiwn i astudio gartref (er gwaethaf y dull dysgu o bell a ddefnyddid yn ystod y pandemig).

“Dw i ym Mlwyddyn 11. Pan ddaeth COVID, wnes i ddim mynd yn ôl [i'r ysgol] oherwydd yn y bôn mi wnaeth iechyd mam ddirywio, felly ro'n i'n ofalwr amser llawn ac yn edrych ar ei hôl hi. Yn y bôn, roedd edrych ar ei hôl hi yn dod o flaen yr ysgol. Mae gen i gwrs coleg nawr ym mis Medi i astudio mecaneg.” (Gofalwr ifanc, 16-18)

“Wnaethon nhw ddod yma i nôl fi wythnos diwethaf, a dyma fi'n

dweud, 'Wel, dw i ddim yn mynd i mewn.' Felly, dyma nhw ... 'Dim pwynt i chi ddod achos dw i ddim yn mynd i symud.' A dyma mam yn trio dweud wrthyn nhw, 'Dydy hi ddim isio mynd,' ond roedden nhw'n dweud, 'Mae'n rhaid iddi fynd yno, i gael ei haddysg.' Dw i'n dweud, 'Alla i ei wneud o gartref'.” (Gofalwr ifanc, 16-18)

I ychwanegu at yr anawsterau hyn, roedd rhai gofalwyr ifanc yn teimlo **nad oedd eu hathrawon yn yr ysgol yn ymwybodol at ei gilydd o'u cyfrifoldebau a'u heriau** y tu allan i'r ysgol, a/neu nad oeddent yn dangos llawer o gydymdeimlad tuag atynt fel gofalwyr ifanc.

“Faswn i wedi gwerthfawrogi mwy o ddealltwriaeth o'r ffaith 'mod i'n ofalwr ifanc, yn enwedig os o'n i wedi blino.” (Person ifanc, 16-24)

Ar ben hyn, roedd rhai yn gorfod rheoli eu salwch a'u hanabledd eu hunain, a oedd yn cymhlethu'r problemau a wynebid. Yn ôl un gofalwr ifanc, roedd y coleg eisiau cael gwared arno o'r cwrs oherwydd problemau presenoldeb. Roedd hyn yn cael ei weld fel diffyg dealltwriaeth o ofalwyr ifanc ar ran y coleg.

“Ro'n i'n edrych ar ôl mam fel gofalwr amser llawn achos ei bod hi'n gwaethygu, ac yn y diwedd mi wnaeth hi farw. Dad oedd wrthi fwyaf wedyn, felly mi wnes i allu mynd i'r chweched dosbarth ond methu yn y diwedd, gan bo fi'n helpu fy nhad efo ochr emosïynol popeth. Yna mi wnes i drïo mynd i'r coleg ond roedd fy iechyd meddwl wedi dirywio llawer, i'r graddau mod i'n cymryd amser i ffwrdd. Nawr maen nhw wedi ceisio fy hel i o'r cwrs lot o weithiau, oherwydd y diwrnodau i ffwrdd.” (Gofalwr ifanc, 16-18)



2.1.2 Amhariadau corfforol ac anabledau dysgu

Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn wynebu rhwystrau a oedd yn deillio o anabledd a phroblemau iechyd eraill. Wrth sôn am brofiadau yn yr ysgol, **roedd wedi bod yn anodd i rai a oedd wedi gorfod ymdopi ag anabledd dysgu neu her ymddygiadol** o oedran cynnar, er enghraifft ADHD neu dyslecsia.

“Mae gen i ADHD, felly i mi, roedd yr ysgol yn ddigon anodd p'un bynnag a gwaith a phethau felly. Ond na, does dim llawer i'w ddweud amdana i. Dw i'n weddol syml ... Mae canolbwyntio yn anodd iawn i mi. O ran addysg, ro'n i'n cael tipyn o drafferth yn yr ysgol.” (Cyfranogwr NEET, 16-18)

Roedd rhai wedi canfod, neu roeddent yn credu, bod eu **hopsiynau o ran pynciau addysgol yn gyfyngedig iawn** oherwydd eu hanabledd neu anhawster dysgu.

“Mi wnes i ddewis drama, dylunio graffeg, a choginio [ar ôl TGAU]. Do'n i ddim ond yn cael cadw un cwrs, achos roedden nhw eisiau fy rhoi i ar gwrs gwahanol oedd yn cyfateb i ddau gwrs. Ac roedd o fel, ‘Na, dydy hynny ddim yn bosib oherwydd dy anabledau di.’ Ro'n i'n teimlo eu bod nhw'n gwahaniaethu yn fy erbyn i yr adeg hynny ... Doeddech chi ddim ond yn cael yr opsiwn i wneud un.” (Cyfranogwr NEET, 19-24)

“Gawson ni ein hopsiynau i ddewis ar gyfer blwyddyn 10. Dim paratoad ar gyfer hynny, dim ond, ‘Ie, iawn, mae angen dewis nawr. Dewis nawr.’ Be wnes i? Mi wnes i ddewis fy nhri, yna mi wnaethon nhw roi

tymor, dw i'n meddwl, i mi, ac wedyn do'n i ddim yn ddigon da, neu do'n i ddim yn ymdopi, yn eu barn nhw, felly wnaethon nhw fynd â fy newis i oddi arna i [gofal plant] a symud fi o hwnnw i un arall, rhywbeth fel Sgiliau Bywyd, ar hwnnw wnaethon nhw fy rhoi i, a'r cyfan oedd hwnnw oedd eistedd mewn dosbarth efo'r llyfryn ma o'ch blaen, a dim ond sgwennu beth bynnag oedd ar y bwrdd gwyn.” (Cyfranogwr NEET, 19-24)

Roedd nifer o gyfeiriadau hefyd at ddiffyg cefnogaeth wrth benderfynu pa opsiynau fyddai'n briodol iddyn nhw, ac yn rhoi boddhad iddyn nhw. Disgrifiodd un cyfranogwr anabl sut y rhoddwyd tri opsiwn yn unig iddi yn y coleg gan nad oedd ganddi ddigon o gymwysterau TGAU.

“Yr unig dri dewis oedd gen i mewn bywyd oedd y tri peth yma [trin gwallt, coginio, gwaith coed] ... Mae'n debyg mai dyna'r unig bethau o'n i'n gallu eu gwneud.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

Datgelodd rhai cyfranogwyr y gallai **fod yn anodd mewn lleoliad addysg i egluro amhariad cudd;** ac roedd ganddynt gywilydd gofyn i rywun egluro'r wybodaeth eto dro ar ôl tro. Dywedodd un cyfranogwr nad oedd arno eisiau gwylltio'r ymarferwyr addysg drwy ofyn am help bob amser neu ofyn iddyn nhw ailadrodd gwybodaeth er mwyn iddo allu ei deall, a bod **hynny'n gwneud y dysgu'n fwy o her.**

“Pan o'n i yn yr ysgol, oherwydd fy anawsterau dysgu, pan ti'n teimlo cywilydd, dwyt ti jyst ddim isio gwneud y gwaith neu beth bynnag.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

Dywedodd un person ifanc ei fod wedi teimlo dan bwysau oherwydd yr holl wybodaeth a gafodd gan gynghorydd gyrfaeodd, ac nad oedd arno eisiau bod yn ‘faich’ drwy ofyn am help o hyd.

“Do'n i ddim yn gallu gwneud llawer efo'r [cynghorydd gyrfaeodd]. Roedd o'n fwy o beth i mi, eto, roedd hi'n rhoi llwyth o wybodaeth i mi, a doeddwn i ddim yn gallu gweithio fy ffordd drwyddo fo. Ro'n i eisiau gwneud, ond ro'n i'n methu achos bod cymaint o wybodaeth i'w phrosesu ... Pan 'dach chi'n gofyn ‘Allwch chi ddweud hynny eto? Allwch chi ddweud hynny wrtha i eto?’ 'dach chi'n teimlo eich bod chi'n boen.” (Cyfranogwr NEET, 16-18)

Mewn gwaith, roedd un cyfranogwr anabl wedi methu ag amsugno holl gynnwys cyfnod hyfforddi dwys fel gweithiwr cymorth i blant ac nid oedd wedi mynd yn ei flaen â'r rôl. Enghraifft arall a roddwyd oedd cael anhawster i ddeall beth oedd yn digwydd mewn rôl wirfoddoli oherwydd problemau darllen ac ysgrifennu.

“Mi wnes i adael y coleg i fynd i swydd amser llawn. Ro'n i wedi bod efo nhw am dipyn o amser, ond mi wnaethon nhw ddod â'm contract i ben. Ro'n i'n cymryd mwy o amser na'r lleill i ddeall pethau.” (Cyfranogwr digartref, 16-24)

“Roedd pethau mor anodd achos do'n i ddim yn deall beth oedd yn digwydd, a doedd o ddim, ... Dw i'n gwybod y byddwn i'n addas i helpu, ond o ran yr ysgrifennu a'r deall, roedd o mor anodd i mi.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

2.1.3 Iechyd meddwl a diffyg hyder

Roedd iechyd meddwl yn thema amlwg a oedd yn codi dro ar ôl tro yn y trafodaethau ansoddol. Roedd yn amlwg o'r trafodaethau bod iechyd meddwl gwael, gan gynnwys iselder a gorbryder/gorbryder cymdeithasol, yn **effeithio ar feysydd eraill hefyd.** Roedd yn effeithio ar gymhelliant, hunan-dyb a hyder pobl, yn ogystal â'u gallu i reoli arian ac i estyn allan am help. Roedd i'w weld yn rhwystr sylweddol a oedd yn atal llawer rhag cymryd y cam nesaf ar eu llwybr addysg neu gyflogaeth.

“Weithiau 'dan ni'n cael trafferth â gweithgareddau bob dydd, felly mae cael y cymhelliant i fynd allan a dod o hyd i waith a mynd i'r gwaith wedyn yn anodd.” (Person ifanc, 16-24)

“Mae fy hyder/iechyd meddwl wedi fy rhwystro i rhag gofyn am help.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd rhai'n meddwl nad oedd cyflogwyr yn hoffi ymgeiswyr â chyflyrau iechyd meddwl, a bod hyn yn ei gwneud hi'n anos iddynt ddod o hyd i waith. Roeddent yn credu bod angen iddynt ddod o hyd i gyflogwr a oedd yn deall eu problemau iechyd meddwl, a gan nad oeddent yn gwybod sut i ddod o hyd i'r cyflogwyr hyn, neu hyd yn oed fod yn hyderus eu bod yn bodoli, roedd hyn yn dod yn rhwystr parhaus iddynt.

Nid oedd yr ysgol yn cael ei gweld fel amgylchedd cefnogol i'r rhai a oedd yn cael anhawster â'u hiechyd meddwl. Roedd llawer yn teimlo nad oedd yr ysgol yn gwrando arnynt neu'n ceisio eu deall fel unigolion.

“Ro'n i'n cael fy nhrin yr un fath â phawb, a doedd neb yn ystyried

be o'n i'n mynd drwyddo fo efo fy iechyd meddwl” (Person ifanc, 16-24)

O safbwynt dysgu, roedd rhai cyfranogwyr yn **cydnabod nad oedd ganddynt hyder i ddweud** os nad oeddent yn deall rhywbeth. Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn teimlo bod y coleg yn rhy academaidd, a'u bod yn gadael o ganlyniad i hynny.

Roedd un cyfranogwr wedi teimlo dan bwysau i wneud Safon Uwch yn hytrach na BTEC, ac roedd y pwysau wedi effeithio ar ei iechyd meddwl yn y pen draw. Roedd y gorbryder a oedd yn gysylltiedig â gorfod gadael y coleg yn rhwystr mawr i'r cyfranogwr pan ddaeth yn amser iddo chwilio am waith yn lle dilyn y cwrs.

“Mi welais i nad o'n i'n gallu dal ati. Roedd yn rhaid i mi stopio a meddwl beth ro'n i isio ei wneud ... Ond mi wnes i sylweddoli nad oedd gen i ddim syniad beth ro'n i isio ei wneud. Roedd pwysau arna i i ystyried prifysgol neu brentisiaeth. Doedd gen i ddim syniad. Mi wnes i benderfynu, dw i'n meddwl ei bod yn well i mi adael. (Cyfranogwr EET, 19-24)

Roedd anabledd a chyflyrau iechyd meddwl yn golygu bod ychydig o gyfranogwyr yn cael trafferth i sefyll arholiadau, hyd yn oed ar ôl gwneud addasiadau. Roedd hyn yn golygu canlyniadau gwael a dim llawer o gyfleoedd gwaith.

“Dydy arholiadau ddim i bawb. Felly, gan mod i'n dyslecsig, arholiadau ydy fy hunllef gwaethaf. Os rhowch chi dasg ymarferol i mi, dw i'n gallu ei gwneud hi, ond maen nhw ... 'Dach chi'n gorfod sgwennu CV, a'r peth cyntaf 'dach chi'n gorfod ei

roi ar eich CV ydy eich canlyniadau TGAU.” (Cyfranogwr NEET, 19-24)

Roedd hunanamheuaeth gyffredinol yn broblem i lawer, ac roedd dyheadau fel cael rôl feddygol neu fynd i brifysgol yn ymddangos ymhell allan o'u cyrraedd, i'r graddau eu bod yn meddwl ‘does dim pwynt trio’.

“Does gen i ddim ffydd o gwbl ynof fi fy hun.” (Gofalwr ifanc, 16-18)

“Yr hyn oedd yn fy rhwystro oedd hyder yn fy ngallu i wneud hyfforddiant pellach (Person ifanc, 16-24)

Roedd peidio â chlywed dim byd yn ôl gan gyflogwyr mewn ymateb i geisiadau am swyddi hefyd yn effeithio ar eu hyder.

“Dw i wedi ymgeisio am gynifer o swyddi yn y misoedd diwethaf ma, ac mae peidio â chael dim byd yn ôl gan rai yn gymaint o ergyd i hyder rhywun. Dw i'n gwybod mod i'n gweithio'n galed, mae fy CV yn gyfredol ac mae gen i brofiad.” (Person ifanc, 16-24)

Ar y llaw arall, roedd yn amlwg bod llwyddiant mewn swydd, lleoliad gwaith neu gwrs yn aml yn cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl ac yn rhoi **anogaeth a chymhelliant iddynt ddal ati.**

“Gan mod i yn y lleoliad yma rwan ac yn ei fwynhau o ac yn cael profiadau dw i'n teimlo'n llawer gwell ac mae pobl yn gallu gweld sut un ydw i a pha mor dda dw i'n gallu bod.” (Person ifanc, 16-24)

2.2 Diffyg Cymwysterau a Sgiliau/Profiad Cyflogaeth

Roedd rhai cyfranogwyr yn cydnabod bod eu diffyg cymwysterau a phrofiad gweithle yn ei gwneud hi'n **anodd iddynt symud ymlaen** â'u llwybr addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

“Pan o'n i'n ddi-waith roedd hi'n anodd dod o hyd i swyddi achos doedd gen i ddim cymwysterau a dw i ddim yn gyrru a doedd y swyddi da ddim yn [lleoliad].” (Person ifanc, 16-24)

“Yr unig rwystr dw i wedi ei brofi wrth drïo cyrraedd fy nod ydy **diffyg profiad**. Roedd hi'n anodd iawn dod o hyd i swyddi gyda chwmni digwyddiadau achos bod trefnu digwyddiadau ddim ar fy CV.” (Person ifanc, 16-24)

“Ro'n i'n gwybod be o'n i isio ei wneud ond doedd y graddau ddim gen i a doedd dim help i ganfod ffordd o gael yr hyn ro'n i ei isio.” (Person ifanc, 16-24)

Dywedodd ambell un eu bod yn teimlo nad **oedd neb yn barod i roi cyfle iddyn nhw** o ganlyniad, ac nad oedd cyfle i ddangos i gyflogwr beth roedden nhw'n gallu ei wneud.

“Dw i'n teimlo fel cael pobl i roi cyfle i chi. Does neb eisïau cymryd siawns ar rywun sy'n bendant heb gael y profiad i gyd.” (Cyfranogwr NEET, 19-24)

“Roedd cyflogwyr yn fy ngwrthod i o hyd oherwydd diffyg profiad, mae'n anodd wedyn achos dw i ddim yn gallu cael y profiad os nad ydy rhywun yn fodlon cymryd y risg o nghyflogi i.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd yn ymddangos bod trafferthion gydag asesiadau arholiadau wedi

cau drysau, ac roedd diffyg profiad o gyfweiliadau yn cael ei weld fel rhwystr, yn enwedig pan oedd yn cael ei gyfuno â ffactorau iechyd meddwl.

“Ro'n i'n methu gwneud cwrs plastro achos bod gen i ddim digon o TGAU, does dim cefnogaeth i rai sydd â graddau gwael. Mae Lefel 3 allan o nghyrraedd i. Does dim llawer o gefnogaeth ar gyfer prentisiaethau, mae'n ymddangos yn faes llwyd.” (Person ifanc, 16-24)

“Mae cyfweiliadau'n gwneud i mi boeni. Dw i ddim yn licio'r syniad o siarad efo rhywun dw i ddim yn ei nabod.” (Person ifanc, 16-24)

Cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at rwystrau â chymwysterau a gofynion coleg/ysgol. Yn achos un cyfranogwr a oedd â diddordeb mewn dim ond un pwnc ar gyfer Safon Uwch, roedd y coleg yn mynnu ei fod yn gwneud tri. Canlyniad hynny oedd ei fod yn teimlo bod ganddo ormod o waith, a rhoddodd y gorau i'w goleg yn llwyr.

“Mi wnaeth y ddau do'n i ddim isio eu dewis mewn gwirionedd ddifetha'r siawns y byddwn i'n llwyddo yn yr un ro'n i isio ei ddewis.” (Cyfranogwr NEET, 16-18)

Roedd un arall wedi canfod bod arno angen cael cymhwyster lefel 2 neu Safon Uwch i wneud rhywbeth o ddiddordeb, ond roedd yn cael trafferth yn ei amgylchedd dysgu oherwydd cyflwr iechyd meddwl..

Roedd yr heriau eraill a oedd yn gysylltiedig â chymwysterau yn cynnwys:

- Methu â dod o hyd i gwrs addas yn agos at adref;
- Cwrs ddim ar gael neu wedi'i ganslo gan nad oedd digon o enwau ar ei gyfer;
- Gwrthdaro ar yr amserlen yn golygu na allai cyfranogwr wneud y cwrs Safon Uwch roedd arno eisïau ei wneud;

- Methu â dod o hyd i gwrs roedd y cyfranogwr yn meddwl y byddai'n addas i'w anghenion dysgu;

- Sgiliau llythrennedd/iaith gwael yn amharu ar eu gallu i lenwi ceisiadau'n effeithiol ac yn effeithio ar eu hyder.

“Mi fasa fo'n well tasa fo'n canolbwyntio mwy ar beth sydd ar gael yn lleol i mi/ cyfleoedd lleol.” (Person ifanc, 16-24)

2.4 Profiadau Negyddol yn y Gweithle ac wrth Ddysgu

Roedd rhwystrau'n codi yn y gweithle weithiau, boed ar leoliad gwaith neu mewn swydd gyflogedig. Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod **wedi cael trafferth i ddal i fyny â gofynion y swydd** (e.e., mewn canolfan alwadau) a'u bod wedi cael eu diswyddo oherwydd hynny, neu heb lwyddo i gwblhau'r cyfnod prawf yn llwyddiannus.

Roedd profiadau negyddol yn y gweithle wedi arwain at broblemau iechyd meddwl.

“Roedd gen i swydd ond mi wnes i adael 6 mis yn ôl gan fod y rheolwr yn annifyr efo fi ac roedd hyn yn effeithio ar fy iechyd meddwl. Dw i ddim yn barod i weithio eto, ond dw i'n bendant eisïau gweithio yn y dyfodol.” (Person ifanc, 16-24)


Yn ychwanegol at hyn, roedd rhai a oedd wedi cael profiad negyddol yn yr ysgol **wedi troi yn erbyn addysg bellach**.

“Na, mi wnaeth yr ysgol fy ngadael i i lawr – doedd amgylchedd yr ysgol ddim yn fy siwtio i do'n i'n cael dim cefnogaeth yn yr ysgol, roedd yr ysgol yn ofnadwy i mi ... ro'n i'n cael fy mwlio yn yr ysgol felly do'n i ddim yn gallu aros tan y byddwn i'n gallu gadael addysg.” (Person ifanc, 16-24)

2.5 Ansicrwydd ynglŷn â'r Camau Nesaf

Roedd y cyfranogwyr yn dweud yn aml mai un o'r prif rwystrau oedd peidio â gwybod sut y gallai eu llwybr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth edrych, yn enwedig yn yr hirdymor, ac **nad oeddent yn cael llawer o gefnogaeth** yn hyn o beth. Roedd diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ba lwybr i'w ddilyn yn golygu nad oedd rhai yn hyderus y byddent yn cyflawni eu nodau.

“Dw i isio bod ar y llwybr, achos fedra i ddim ei wneud o os nad ydw i'n mynd i goleg ac yn mynd ymlaen i brifysgol. Felly, ymhen tair blynedd, dw i isio bod ar y llwybr yna. Ond does gen i ddim syniad sut i gyrraedd yno. Dim clem. Felly ar hyn o bryd dw i'n eistedd yn fy ystafell fyw yn gwneud dim. Dyna'r sefyllfa dw i ynddi, a dyna pam 'dan ni angen y gefnogaeth.” (Cyfranogwr NEET, 16-18)



2.5.1 Dim sylw i'r camau nesaf yn yr ysgol

Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol bod **yr ysgol wedi methu â'u paratoi ar gyfer yr hyn oedd o'u blaenau**, er bod rhai'n dweud nad oeddent o reidrwydd yn y cyflwr meddyliol priodol i ymgysylltu'n effeithiol pan oeddent yn yr ysgol. Roedd rhai'n dweud eu bod **wedi cael eu harwain i gael disgwyliadau afrealistig** ynglŷn â gallu dod o hyd i waith (gan yr ysgol yn bennaf) a'u bod yn teimlo'n siomedig.

“Rhwng 16 a 18, mae fel bod rhwng dwy stôl, lle 'dach chi'n rhy hen i wneud un peth, ond 'dach chi ddim yn ddigon i hen i wneud rhywbeth arall. Ac mae'n achosi straen.” (Gofalwr ifanc, 16-18)

Roedd cyngor gyrfaoel yn afreolaidd, ar y gorau, ac nid oedd yn cael ei flaenoriaethu. Os oedd rhywun yn ei gollu oherwydd absenoldeb, nid oedd yn cael ei ailadrodd o reidrwydd, felly roedd rhai'n ei gollu'n gyfan gwbl. Cyfeiriodd rhai at gyfarfodydd dilynol annigonol ar ôl trafodaeth cyngor gyrfaoedd, felly roedd yr ysgogiad wedi'i gollu, a'r wybodaeth wedi'i hanghofio.

“Dw i'n meddwl mod i wedi colli'r diwrnod pan oedden nhw'n siarad am yrfaoedd.” (Person ifanc, 16-24)

“Ym Mlwyddyn 10 ac 11 dw i'n teimlo nad oedd dim cymorth nac arweiniad i mharatoi i ar gyfer coleg neu gyflogaeth. Roedd digwyddiad gyrfaoedd ond dim ond un dw i'n meddwl, a do'n i ddim yn gallu mynd, felly mi wnes i gollu'r cyfle. (Person ifanc, 16-24)

“Weithiau roedd gennym ni athro a fyddai'n helpu gyda dewisiadau

a TGAU ond doedd dim llawer o amser.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd eraill yn teimlo bod cyngor gyrfaoel wedi'i gyfeirio at y rhai mwy academaidd/cyflawnwyr uchel, er enghraifft ag ymweliad i'r ysgol gan Seren¹.

“Ar gyfer disgyblion oedd ag A neu A seren ym mhob pwnc, mi gawson ni ryw bobl o'r enw Seren, felly byddai pobl yn dod i'r ysgol ac yn siarad efo'r disgyblion ynglŷn â beth roedden nhw isio ei wneud pan fydden nhw'n gadael y brifysgol. Felly byddai pob un ohonyn nhw'n feddygon neu rywbeth felly, ond wedyn roedd gennych chi bobl fel fi oedd ddim wedi cael A ac A seren ym mhob pwnc, ac oedd â dim syniad beth roedden ni isio ei wneud ar ôl gadael ysgol – doedden ni ddim yn cael llawer o gefnogaeth.” (Cyfranogwr EET, 19-24)

Roedd y cyfranogwyr yn dweud bod **diffyg dealltwriaeth** o'r opsiynau a oedd ar gael, er enghraifft nid oeddent yn sylweddoli'n iawn beth oedd Safon Uwch neu brentisiaeth, nac yn deall lle roedden nhw ar y 'llwybr'. Roedd teimlad hefyd nad oedd digon o bwyslais yn cael ei roi ar y gallu i newid swyddi, pa un a oedd hynny'n golygu ailgyfforddi neu ddefnyddio sgiliau trosglwyddadwy.

“Yn yr ysgol uwchradd doedd gen i fawr o syniad beth i'w wneud yn y dyfodol. Do'n i ddim yn deall Safon Uwch na beth ydyn nhw, a beth yn union sy'n digwydd yn y blynyddoedd nesaf. Do'n i ddim wedi clywed am [brentisiaethau] tan i mi gyrraedd y coleg.” (Cyfranogwr NEET, 16-18)

“I mi, yn bersonol, mae'n debyg y byddwn i'n dweud ei fod fel gwybod eich bod chi'n symud ymlaen heb

sylweddoli hynny go iawn. Achos mi fyddwn i'n mynd i'r coleg ac yn gwneud be wnes i, ac yn teimlo wedyn nad o'n i'n mynd i nunlle efo fo.” (Cyfranogwr EET, 19-24)

“Mi fyddwn i wedi hoffi cael mwy o arweiniad ynglŷn â beth fyddwn i'n gallu ei wneud pe bawn i'n cael y graddau disgwylidig.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd rhai wedi'u dychryn gan y syniad o wneud penderfyniadau yn yr ysgol a fyddai o bosibl yn cau drysau yn nes ymlaen neu'n datblygu i fod yn rhai 'anghywir'.

“Dwi'n meddwl mae o'n daunting bod y fact bod be bynnag dan ni'n dewis neud rwan, mae o fatha domino effect massive. Fatha deud rwan ti'n mynd lawr rhywbeth a ti ddim yn licio fo, then ti'n gorfod ail gychwyn, ac mae o jyst yn kind of scary.” (Cyfranogwr EET, 16-18)

O ganlyniad, **teimlai rhai eu bod wedi dewis y cwrs 'anghywir' drwy ddilyn ffrindiau**, e.e., i goleg chweched dosbarth, yn hytrach na chanolbwyntio ar drywydd galwedigaethol neu brentisiaeth y byddent yn ei hoffi'n fwy. Yn yr un modd, **roedd eraill yn teimlo eu bod wedi cael eu gwrthio i opsiynau academaidd** gan eu hysgol a heb gael gwybodaeth am opsiynau eraill, neu gefnogaeth i'w hystyried.

“Roedd aros yn y chweched dosbarth / mynd i brifysgol yn cael ei wrthio / ffafrio yn fwy nag opsiynau eraill.” (Person ifanc, 16-24)

2.5.2 Diffyg cefnogaeth ar ôl ysgol/coleg

Roedd llawer yn dweud **nad oeddent yn gwybod beth i'w wneud nesaf**, ar ôl gorffen ysgol neu goleg. Roedd yn ymddangos bod **diffyg cefnogaeth drosiannol amlwg a chyson** i bobl ifanc o adeg gadael ysgol nes mynd i goleg neu waith.

“Mae o reit anodd cael help i chwilio am swydd neu gael cyngor a gwybod ble i fynd.” (Person ifanc, 16-24)

Nid oedd **llwybr cam wrth gam amlwg**, ac yn sicr dim un a fyddai'n gweddu i unigolion â chyflwr iechyd meddwl. **Roedd gadael coleg neu brifysgol heb gynllun wrth gefn wedi achosi problemau** i ambell gyfranogwr nad oedd yn gwybod beth i'w wneud nesaf, tra oedd eraill wedi gorffen Safon Uwch ond yn canfod eu hunain mewn swydd nad oedd angen y cymwysterau hyn.

“Mi wnes i astudio mathemateg Safon Uwch, a busnes Safon Uwch, ac ar ôl hynny do'n i ddim yn gwybod beth i'w wneud efo nhw. Ro'n i'n gwybod erioed mod i isio gwneud rhywbeth ym myd busnes a chychwyn o hynny, ond dw i ddim wedi cael y cyfle mewn gwirionedd, achos mi wnes i ymuno efo [cwmni cludo parseli], a dechrau gweithio amser llawn a dw i'n gwneud dim byd rwan efo'r cymwysterau Safon Uwch sydd gen i.” (Cyfranogwr EET, 19-24)

Roedd mynd ymlaen i'r chweched dosbarth yn cael ei ddefnyddio weithiau fel **tacteg oedi** oherwydd roedd yn ymddangos yn llawer haws/llai o risg na gwneud penderfyniad gweithredol ynglŷn â beth i'w wneud nesaf.

“Dwi'n meddwl nes i aros yn chweched jyst fatha ffordd i kind of delayio dewis rhywbeth i neud achos mae o'r peth hawdd i neud, I guess...

Fi yr un peth. Doeddw'n ddim rili yn siŵr beth i neud, felly nes i jyst aros ymlaen.” (Cyfranogwr EET, 16-18)

Dywedodd rhai bod arnynt eisiau edrych ar opsiynau penodol ond nad oedd ganddynt yr hyder i wneud hynny ar eu pen eu hunain. Roedd un cyfranogwr yn **poeni na fyddai o bosibl yn gallu ymdopi mewn addysg bellach neu uwch** ac y byddai'n teimlo gormod o **gywilydd** i ofyn am help yn ystod y cwrs, rhag ofn y byddai'n gwneud y tiwtoriaid yn flin.

Roedd arwyddion bod rhai pobl ifanc yn teimlo'n **rhy falch i ofyn am help**, a/neu'n credu nad oedd cymorth yn berthnasol iddyn nhw/eu sefyllfa nhw (oherwydd hyder isel, gorbryder neu ddiffyg dealltwriaeth).



1. Gweler <https://llyw.cymru/rhwydwaith-seren>

2.6 Effaith COVID-19

Roedd COVID-19 wedi creu a **gwaethygu rhwystrau** i rai pobl ifanc o ran cael yr addysg a'r hyfforddiant roedd arnynt ei eisiau. Roedd rhai'n sôn am **deimlo eu bod 'wedi cael eu caethiwo'** gartref am gyfnodau hir a bod hynny wedi effeithio ar eu haddysg, gwaith, hyder, lles meddyliol a chyfleoedd.

“Adeg y cyfyngiadau symud roeddwn i adref, do'n i ddim yn teimlo'n hyderus i fynd allan gan fod mam wedi bod yn wael iawn efo Covid, felly ro'n i'n aros gartref cymaint ag y gallwn i. Dw i'n meddwl bod hyn wedi cychwyn fy ngorbryder, gan mod i'n dal i deimlo'n nerfus hyd yn oed yn y gwaith Kickstart dw i'n ei wneud rŵan.” (Person ifanc, 16-24)

“Roedd fy hyder yn isel yn ystod y cyfyngiadau symud ac am gyfnod hir a dyna pryd y cychwynnodd y gorbryder.” (Person ifanc, 16-24)

Doedd dim posibl chwilio am waith yn ystod cyfnodau penodol, ac roedd un cyfranogwr wedi cael ei ddiswyddo. Roedd cyfranogwr arall wedi colli swydd yn ogystal â chael babi ac roedd hynny wedi ychwanegu at yr anawsterau roedd yn eu hwynebu. **Roedd cyfleoedd am leoliad gwaith hefyd wedi bod yn brin iawn.** Roedd person ifanc arall wedi gwneud yn wael yn ei arholiadau TGAU, ac yn teimlo mai'r rheswm am hynny oedd bod y pandemig wedi amharu ar ei addysg.

Roedd y pandemig, ynghyd â chyfrifoldebau gofalu, wedi achosi i un gofalwr ifanc adael y chweched dosbarth. Roedd problemau technegol â dysgu ar-lein hefyd wedi **tarfu ar y dysgu.**

“Yr agwedd o drïo chwilio am waith ... drwy gydol cyfnod COVID a'r cyfyngiadau symud, roedd yn straen feddyliol ddifrifol. (Cyfranogwr NEET, 19-24)

“Mi es i i'r chweched dosbarth, a chyrraedd Blwyddyn 13, ac ro'n i'n teimlo dan straen ofnadwy, felly mi wnes i adael y cwrs.” (Gofalwr ifanc, 16-18)

Roedd rhai cyfranogwyr mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn cofio sut roedd hi wedi bod yn anos i ddysgu **heb y rhyngweithio wyneb yn wyneb** gyda'r athrawon. Yn ychwanegol at hyn roedd lleihad amlwg wedi bod mewn cymorth ar gyrsiau gan ganolfannau addysg, ac mewn cyngor ar y camau nesaf. O ganlyniad roeddent yn teimlo llai o ddiddordeb mewn dysgu ac roedd un neu ddau wedi ystyried gadael eu cyrsiau.

“I mi, mae pethau wedi bod braidd yn ansicr, efo COVID ac ati, am ddwy flynedd mae'r rhan fwyaf o'm cwrs wedi bod ar-lein ac mae pawb wedi dechrau blino gwneud y pethau maen nhw'n licio eu gwneud.” (Cyfranogwr EET, 19-24)

“Dwi 'di ffeindio fe'n cweit anodd oherwydd gyda COVID, ni 'di colli mas ar fod yn yr ysgol a chael y cyngor. Fel, pan oedd y pandemig wedi dechrau, o'n i fod i neud TGAU, felly ni 'di colli allan y darn hynna o'r ysgol yn siarad os dylen ni fynd i coleg neu ddim. A does gen i ddim brodyr neu chwiorydd sy'n hynach na fi, felly roedd rhieni fi'n newydd i fe hefyd, felly oedd rhaid fi kind of penderfynu ar ben fy hun.” (Cyfranogwr EET, 16-18)



2.7 Profiadau Negyddol o Sefydliadau Cefnogi

Roedd rhai cyfranogwyr wedi cael cefnogaeth werthfawr iawn gan sefydliadau amrywiol, a chaiff hyn ei ystyried yn nes ymlaen mewn pennod arall. Fodd bynnag, roedd un neu ddau o achosion lle'r oedd pobl ifanc wedi cael profiadau nad oeddent wedi bod mor gadarnhaol.

Mae cyfeiriadau uniongyrchol at y sefydliadau cefnogi **wedi cael eu sensro er mwyn cadw anonymedd y cyfranogwyr.**

Roedd eu profiadau negyddol yn cynnwys:

- Cyfranogwr anabl yn canfod nad oedd gwahanol sefydliadau wedi gallu helpu;

“Mi wnes i fynd i [fudiad sy'n cefnogi pobl ddifreintiedig] a [asiantaeth gyflogaeth], a gwneud y [elusen sy'n cefnogi pobl ifanc], ond dydyn nhw ddim wedi fy helpu i mewn llawer o ffyrdd ychwaith. Dw i ddim yn meddwl bod ganddyn nhw'r, be 'dy'r gair dw i'n chwilio amdano? Y cyfleusterau iawn i helpu rhywun fel fi. Felly, yn fyr iawn, mae wedi bod yn dipyn o her, yn anodd.” (Cyfranogwr NEET, 19-24)

- Byw â chymorth lle nad oedd y staff yn rhagweithiol iawn wrth gefnogi cyfranogwr anabl;
- Anogwr Gwaith nad oedd wedi bod yn rhagweithiol iawn, a'r cyfranogwr wedi gorfod mynd ar ei ôl er mwyn cael help i lenwi ffurflen i ymgeisio am swydd.

Roedd rhai yn meddwl eu bod **wedi cael cyngor annigonol tra oeddent yn yr ysgol.** Adroddwyd am achosion o:

- Beidio â chael cyngor un-i-un neu beidio â theimlo bod rhywun yn gwrandio arnynt;
- Clywed amdano yn y gwasanaeth yn unig;
- Methu â chyd-dynnu â gweithiwr y sefydliad cefnogi;
- Cael awgrymiadau am swyddi anaddas;
- Peidio â chael digon o wybodaeth ynglŷn â'r camau ymarferol nesaf;
- Cyngor yn dod yn rhy hwyr.

“Do, ges i bach o help hefo [mudiad cyngor gyrfaoedd], ond nes i'm rili dewis be 'naethon nhw ddeu'tha fi ... oedd o'n 'quite pointless' achos nes i neud 'complete opposite' o be 'naeth gael ei ddeud.” (Cyfranogwr EET, 16-18)

“Roedd athrawon yn dweud, 'o, edrycha am [mudiad cyngor gyrfaoedd], gwna'r cwisiau a gweld pa swyddi sy'n dod i fyny, ond doedden nhw ddim yn gywir o gwbl ... ro'n i'n cael pethau fel mynd â chŵn am dro, a dim byd i'w wneud efo be o'n i'n hoffi ei wneud.” (Cyfranogwr EET, 19-24)

“Wrth gwrs, maen nhw'n dod i'r ysgol ac i'r gwasanaeth, ond fel plentyn, be, 15, 16 oed, 'dach chi ddim yn mynd i wrando ar bethau felly. Wir i chi, 'dach chi ddim. Na. Dw i'n 18 rwan, ti'n gwybod be dw i'n feddwl? Tasa ti'n mynd â fi yn ôl, efallai y byddwn i wedi gwrandio ... ro'n i'n byw ar fy mhen fy hun pan o'n i'n 16, dwyt ti ddim yn cymryd popeth i mewn. (Cyfranogwr digartref, 16-24)

“Mi wnes i siarad efo [mudiad cyngor gyrfaoedd] ond doedden nhw fawr o help, dweud beth i'w wneud ond nid sut i'w wneud. (Person ifanc, 16-24)





2.8 Rhwystrau Ariannol

Roedd problemau ariannol yn ychwanegu at yr heriau yr oedd pobl ifanc yn eu hwynebu wrth geisio cael yr addysg, cyflogaeth a hyfforddiant roedd arnyn nhw ei eisiau, ac yn effeithio ar y trywydd roedden nhw'n penderfynu ei ddilyn.

“Dw i ar yr isafswm cyflog ac ar oriau dim contract felly mae arian yn brin.” (Person ifanc, 16-24)

“Dw i wedi chwilio am hyfforddiant ac addysg ond roedd y pethau ro'n i'n edrych arnyn nhw'n costio llawer o arian felly mi wnes i ddewis mynd i weithio.” (Person ifanc, 16-24)

“Fy mhroblem fwyaf yw arian – rwy'n cael trafferth i fforddio costau teithio, rhent, bwyd a biliau.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd llawer o gyfeiriadau at effaith negyddol gweithio ar fudd-daliadau i deuluoedd. Canfu un gofalwr ifanc, er enghraifft, na allai wneud y brentisiaeth yr oedd eisiau ei gwneud oherwydd y byddai'n colli budd-daliadau, felly roedd yn rhaid iddo ddilyn llwybr gwahanol yn y coleg. Darganfu un arall broblem â budd-daliadau oherwydd ei fod yn gofalu am ei riant am fwy na nifer penodol o oriau yr wythnos. Yn ychwanegol at hyn, dywedodd un gofalwr ifanc na allai hawlio budd-dal ei hun (PIP) oherwydd yr effaith y byddai hynny'n ei gael ar fudd-daliadau ei riant.

“Dw i i fod ar PIP achos bod gen i broblemau iechyd fy hun, ond dw i'n poeni braidd ynglŷn â gwneud hynny wrth gwrs achos bydd mam yn colli ei budd-dal hi. Felly

dw i ddim yn hawlio dim byd i mi fy hun.” (Gofalwr ifanc, 16-18)

“Pan wnes i gymryd Lwfans Gofalwr ar gyfer fy Nghredyd Cynhwysol, cafodd fy nhad lythyr yn dweud eu bod wedi darganfod fy mod i'n gofalu amdano am fwy na 40, dw i'n meddwl mai 40 neu 38 awr yr wythnos ydy o, yr amser sy'n ofynnol er mwyn bod yn ofalwr amser llawn, a dw i'n cael y llythyr a oedd yn dweud eu bod nhw'n mynd i, roedden nhw'n rhestru budd-daliadau, a'u bod nhw'n mynd i stopio taliadau. Ac roedd pethau fel budd-daliadau tai, treth gyngor, Lwfans Ceiswyr Swyddi, a phethau felly, budd-daliadau os nad ydan ni, os nad ydy dad a fi'n eu cael, fydd gennym ni ddim lle i fyw, ac ati.” (Gofalwr ifanc, 16-18)

I berson ifanc arall â phrofiad o fod yn ddigartref a oedd yn derbyn cymorth lle bo'r angen², gallai'r rhent amrywio'n fawr o'r naill wythnos i'r llall. Daethant i'r casgliad eu bod yn **‘well eu byd yn gwneud dim byd’**. Fodd bynnag, roedd cael cymaint o amser ar eu dwylo yn golygu bod yr her o geisio osgoi camddefnyddio sylweddau yn anos byth.

“Mae angen i chi gael dros fil y mis yn dod i mewn i dalu costau nwy a thrydan, a'r biliau ... [Gweithiwr cymorth yn ychwanegu] Pe bai hi'n dechrau gweithio, byddai'n colli ei chredyd cynhwysol, sydd ddim yn broblem, oherwydd byddai'n ennill arian, ond wedyn byddai'n colli ei budd-dal tai hefyd, sy'n golygu y byddai wedyn yn gyfrifol am y

gost o £400 yr wythnos... Mae hi'n barod am gyflogaeth, ond oherwydd costau rhentu llety â chymorth, feder hi ddim. Does dim posibil iddi allu gweithio. (Cyfranogwr digartref a gweithiwr cymorth)

Yn ôl rhai gofalwyr ifanc, roedd gan y Lwfans Cynhaliath Addysg (EMA) **ofynion llym yn ymwneud â phresenoldeb mewn addysg** a oedd weithiau'n amhosibl i'w cyflawni â dyletswyddau gofalu. Yn ogystal, **roedd rhai'n teimlo nad oedd y Lwfans yn ddigon i gefnogi'r dysgwyr** sydd ei angen.

“Mae [EMA] yn rhoi arian i chi, fodd bynnag, os 'dach chi neu eich teulu ar fudd-daliadau ac ati, mae'n rhoi 30 punt yr wythnos i chi, ond mae angen i chi fod i mewn bob diwrnod, ar amser, i hynny weithio, ac os 'dach chi'n ofalwr, allwch chi ddim cael hynny. Achos os 'dach chi'n hwyr i un wers, dyna eich wythnos chi wedi mynd. Mae'r gofynion ar gyfer EMA yn annheg iawn ar gyfer cael taliad.” (Gofalwyr ifanc)

Mae'r pwyntiau eraill a wnaethpwyd mewn cysylltiad â chyllid yn cynnwys:

- Baich gweinyddol gwneud cais am EHCP ('mae bywyd wedi mynd yn un ffurflen fawr');
- Cost gofal plant i fam â phrofiad o fod yn NEET yn ddiweddar;
- Cyflog prentisiaeth yn rhy isel i'w wneud yn opsiwn hyfyw i rai.

2. Mae cymorth lle bo'r angen – a elwir weithiau yn gymorth cynnal tenantiaeth – yn helpu pobl, a fyddai fel arall yn cael trafferth i ymdopi, i fyw yn annibynnol yn eu cartref eu hunain. Mae'n canolbwyntio ar atal pobl agored i niwed rhag colli eu cartref, ac yn achos pobl sydd wedi bod yn cysgu ar y stryd, gall eu helpu i beidio â mynd yn ôl ar y stryd.

2.9 Rhwystrau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth

Roedd teithio yn rhwystr a godwyd yn aml yn y trafodaethau. Er enghraifft, cost teithio i gyfweiliadau, dod o hyd i ffordd o deithio, methu â gyrru, rhwydweithiau bysiau gwael – yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gorfod gofyn i bobl eraill am lifft i apwyntiadau a methu â dibynnu arnynt bob amser.

“Dw i ddim yn gyrru felly mae'n anodd mynd i leoedd. Dw i'n gorfod dibynnu ar deulu i roi lifft i mi a chael y bws a dydyn nhw ddim ond o gwmpas ar adegau penodol.” (Person ifanc, 16-24)

“Y broblem fwyaf ydy cludiant i fynd i hyfforddiant neu waith, ac arian i dalu am y cludiant.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd problemau yn gysylltiedig â gorbryder hefyd yng nghyswllt trafndiaeth, gan gynnwys gorbryder cymdeithasol ar drafnidiaeth gyhoeddus.

“Fy rhwystr i ar hyn o bryd yw trafndiaeth gyhoeddus, mae fy ngorbryder i mor ddrwg fel nad ydw i'n gallu eu defnyddio nhw.” (Person ifanc, 16-24)

2.10 Rhwystrau sy'n Gysylltiedig â Thechnoleg

Mewn ambell achos, cyfeiriodd cyfranogwyr at heriau roedden nhw wedi eu hwynebu â thechnoleg. Roedd rhai yn methu â chael mynediad at gyfrifiadur; roedd eraill yn cydnabod eu bod yn cael trafferth i ddod o hyd i wybodaeth ar-lein am hyfforddiant a chysiau. Doedden nhw ddim yn gwybod ble i edrych a doedden nhw ddim yn gweld canlyniadau'r chwiliad yn glir iawn.

“Mi wnes i edrych ar-lein, ond roedd o'n ddryslyd iawn a do'n i ddim yn gwybod lle i ddechrau ... dw i wedi gwneud chwiliad ar-lein ond do'n i ddim yn deall llawer ohono fo, ac roedd o'n ddigon drud felly do'n i ddim yn gallu ei wneud.” (Person ifanc, 16-24)

2.11 Rhwystrau Ymarferol Eraill

Roedd cyfeiriad hefyd at rwystrau ymarferol eraill a allai, ar y cyd â rhai o'r rhwystrau eraill uchod, atal pobl ifanc rhag cymryd y cam nesaf. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Problemau wrth geisio cael dogfennau e.e., llun ar gyfer cerdyn adnabod, rhif yswiriant gwladol, yn enwedig yn achos pobl ifanc a oedd wedi bod yn derbyn gofal;
- Dod o hyd i ddiplod ar gyfer cyfweiliadau;
- Dim cyfeiriad parhaol;
- Statws fel ceisiwr lloches;
- Dod o ddiwylliant lle nad oedd y teulu eisiau i'r person ifanc deithio i astudio;

“Rwy'n teimlo bod hynny'n eithaf pell, felly mae gorfod canfod fy ffordd yno, wrth gwrs, braidd yn anodd, yn enwedig yn fy nghartref i. O safbwynt ethnig a diwylliannol, smo ni'n gadael ein dinas fel y cyfryw, ac ry'n ni'n aros mwy gyda'n teulu.” (Cyfranogwr NEET, 16-18)





3.0
YMWYBYDDIAETH
O'R GEFNOGAETH
SYDD AR GAEL



Roedd ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc 16-24 oed o ran addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn isel. Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn tueddu i ddweud nad oeddent yn ymwybodol iawn o gefnogaeth a oedd yn targedu pobl ifanc, ac eithrio rhai cyfranogwr EET.

Er bod rhai storïau cadarnhaol, roedd ansicrwydd a dryswch cyffredinol ynglŷn â pha gefnogaeth oedd ar gael, a sut i gael mynediad ati:

“Do'n i ddim yn siŵr pa help oedd ar gael i mi ...do'n i ddim yn siŵr lle i fynd i gael help a chyngor ... Yr unig le dw i 'di clywed amdano i gael help â swyddi neu fudd-daliadau ydy'r ganolfan waith.” (Person ifanc, 16-24)

“Na do'n i ddim yn gwybod be fyddwn i'n gallu ei wneud na pha help y byddwn i'n gallu ei gael.” (Person ifanc, 16-24)

“Dydy cael mynediad at gyngor neu gymorth gyrfaoel ddim wedi bod yn hawdd.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd y rhai a oedd wedi cael cymorth fel arfer wedi cael gwybod amdano'n anuniongyrchol drwy weithwyr proffesiynol neu sefydliadau eraill, yn hytrach na'r person ifanc yn dod o hyd i gymorth a chael mynediad iddo drwy ei fodd ei hun.

“Do'n i ddim yn gwybod am unrhyw gymorth ar wahân i [mudiad cyngor gyrfaoedd] ... Fy Ymwelydd lechyd wnaeth sôn wrtha i am [gwasanaeth cynghori].” (Person ifanc, 16-24)

“Mi wnaeth y ganolfan waith wneud i mi wneud cwrs hyder ac mi wnaeth y ddynes yno fy nghyflwyno i [mentor] o [gwasanaeth cynghori] ac mi wnaeth o fy helpu i i ymgeisio am swyddi a gwneud ffug gyfweiliad efo fi cyn i mi gael fy swydd.” (Person ifanc, 16-24)

“Wnaethon ni hefyd gael pobl yn dod i mewn ac yn rhoi sgwrs i ni am [mudiad cyngor gyrfaoedd], roedden nhw'n dod o [mudiad

cyngor gyrfaoedd], ond dw i ddim yn gwybod, mae'n siŵr bo fi di anghofio amdany'n nhw. Dw i ddim yn meddwl y byddwn i'n mynd yno yn wirfoddol. Dw i ddim yn gwybod, di o ddim yn rhywbeth mae rhywun yn siarad llawer amdano, nac ydy? Di o ddim yn cael ei hysbysebu ac ati.” (Cyfranogwr EET, 19-24)

Dangosodd yr arolwg omnibws fod 1 o bob 3 person ifanc 16-24 oed (33%) wedi cysylltu â sefydliad (neu bobl eraill) i gael cyngor neu gymorth am addysg, hyfforddiant neu waith. Roedd hyn yn cynyddu ymhlith:

- Pobl ifanc 16-18 oed (52%, o'i gymharu â 29% o bobl ifanc 19-24 oed);
- Y rhai â salwch hirdymor, problem iechyd neu amhariad (43%, o'i gymharu â 27% heb);
- Y rhai mewn addysg/ddim yn gweithio (43%, o'i gymharu â 23% yn gweithio).

Pan ofynnwyd i'r bobl ifanc hynny a oedd wedi estyn allan i gael cymorth gyda phwy roeddent wedi cysylltu, dywedodd **mwya nag 1 o bob 3 (42%) eu bod wedi defnyddio Gyrfaoedd Cymru**, a oedd yn fwy nag unrhyw ffynhonnell arall (gweler Ffigur 6). Roedd ffrindiau a/neu deulu, staff prifysgol a staff coleg hefyd yn lleoedd lle roeddent wedi mynd i gael cymorth, fel y dengys y siart isod:

Yn y trafodaethau ansoddol, fodd bynnag, er bod Gyrfaoedd Cymru wedi cael ei ddefnyddio'n gymharol gyffredin yn yr ysgol, roedd yr ateb yn dal i orfod cael ei gymhell yn aml iawn yn ystod y trafodaethau fel ffynhonnell bosibl ar gyfer cymorth.

Pan roddwyd rhestr o resymau iddynt, dywedodd mwya nag 1 o bob 3 person ifanc 16-24 oed (39%) nad oeddent wedi cysylltu ag unrhyw sefydliadau (na phobl eraill) i ofyn am gyngor neu gymorth gan eu bod yn dweud nad oeddent wedi meddwl am hynny.


Dywedodd eraill:

- Nad oeddent yn gwybod sut i ddod o hyd i'r math yma o wasanaeth (29%);
- Nad oedd ganddynt hyder (27%);
- Nad oeddent wedi clywed am y math yma o wasanaeth (26%);
- Nad oeddent yn meddwl y gallai'r math yma o wasanaeth eu helpu (26%).

Pan ofynnwyd pam nad oeddent erioed wedi cysylltu ag unrhyw sefydliad (neu bobl eraill) i ofyn am gyngor neu gymorth yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant neu waith, roedd eu hymatebion (digymell) fel a ganlyn:

- Heb fod angen (30%);
- Ddim yn gwybod gyda phwy i gysylltu/ble i edrych (20%);
- Ddim yn gwybod/methu â chofio (15%);
- Dim hyder/ofn/nerfus/ddim yn teimlo'n gyfforddus (9%);
- Eisoës mewn swydd/yn y brifysgol/ yn gwneud prentisiaeth (6%).

Ffigur 6: Cwestiwn Arolwg Omnibws Gyda phwy y gwnaethoch chi gysylltu i gael cyngor neu gefnogaeth?



3.1 Ymwybyddiaeth o'r Warant i Bobl Ifanc

Dyweddod y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd nad oeddent yn gwybod am y Warant i Bobl Ifanc, hyd yn oed pan roddwyd yr enw iddynt. Roedd un person ifanc yn meddwl ei fod wedi gweld gwleidydd yn postio rhywbeth am y warant ar y cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â neges a oedd yn gwarantu swydd neu addysg bellach.

Dyweddod cyfranogwyr y dangoswyd crynodeb³ byr iddynt o'r Warant i Bobl Ifanc (yn yr ymchwil ansoddol a gynhaliwyd gan Beaufort) ei bod yn **swnio'n addawol, yn ddefnyddiol ac yn dda ar bapur**.³ Roedd yn tynnu sylw at hawliadau neu hawliau, arian neu warant arian yn ôl ac yn rhoi'r argraff y byddai pobl ifanc yn bendant yn cael eu helpu.

“Mae'n swnio'n dda. Dw i ddim yn siŵr ydy o'n mynd i weithio, ond mae'n swnio'n dda iawn ar bapur, a dw i'n meddwl ei fod o'n drawiadol iawn.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)


Dyweddod rhai eu bod yn **poeni y byddai'r addewid o warant yn arwain at siom yn y diwedd**, ac roeddent yn dweud bod angen cefnogaeth barhaus yn hytrach nag unwaith yn unig. Er bod hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Warant i Bobl Ifanc, mae'r adborth hwn yn awgrymu efallai bydd angen sicrwydd ar bobl ifanc y bydd y warant yn eu helpu.

“Peidiwch â dweud eich bod chi'n mynd i gael gwaith i mi a pheidio â chael gwaith i mi yn y diwedd achos mi fydd hynny'n fy ngwneud i'n flin. Os ydych chi'n mynd i fy helpu fi i gael gwaith, rydych chi'n fy helpu i i gael gwaith.” (Cyfranogwr digartref, 16-24)

Roedd yn codi cwestiynau hefyd, er enghraifft gofynnodd un cyfranogwr sut y byddai'n gweithio pe bai'r person ifanc neu ei gartref yn debygol o golli budd-daliadau os oedd yr unigolyn yn cael gwaith, yn enwedig os oedd yn byw mewn llety â chymorth.

3. Cynllun gan Lywodraeth Cymru yw'r Warant i Bobl Ifanc. Mae'n cefnogi pawb sydd dan 25 oed i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant. Mae hefyd yn eu helpu i gael swydd neu i fod yn hunangyflogedig.





4.0
PROFIADAU
CADARNHAOL
O GEFNOGAETH



Yn yr arolwg omnibws, roedd y rhai a oedd wedi cael cyngor neu gefnogaeth gan sefydliad neu bobl eraill yn meddwl ei fod wedi helpu ‘y chydig’ (50%) neu ‘lawer’ (44%) wrth iddynt wneud y cwrs / hyfforddiant neu gael y swydd roedd arnynt ei heisiau. Roedd arwyddion bod profiad cadarnhaol o geisio/derbyn cefnogaeth yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o sefydliadau/pobl eraill, a’u tuedd i ymgysylltu â nhw a gofyn am gymorth ganddynt.

“Gan mod i wedi bod ar leoliad dw i’n gwybod bod llawer mwy o gymorth ar gael.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd arwyddion, lle’r oedd cyfranogwyr wedi cael eu trin yn ofalus gan sefydliadau cymorth a chyflogwyr, ac wedi cael profiadau cadarnhaol gyda nhw, y gellid goresgyn/rheoli rhai o’r rhwystrau yn gymharol dda.

“Mae pobl ifanc yn nerfus i ofyn am gyngor gyrfaol, ond os gallan nhw oresgyn hynny mi fyddan nhw’n cael cyngor da.” (Person ifanc, 16-24)


“Fy nghyngor i ydy **siarad â rhywun, gofyn am help a chyngor bob amser a pheidio bod ag ofn. Mae fy hyder i wedi gwella.**” (Person ifanc, 16-24)

“Rwy’n profi lefelau uchel o orbryder ond â chefnogaeth [gwasanaeth cynghori] llwyddais i adeiladu fy hyder i gychwyn ar y rhaglen [rhaglen gyflogadwydd] a doedd dim cymaint o bwysau. Yna â chymorth ac anogaeth gan fy mentor [gwasanaeth cynghori] es i ar yr hyfforddiant a chael swydd fel hyfforddwr nofio.” (Person ifanc, 16-24)

Ymhlith y rhai a oedd wedi gofyn am gymorth gan fwy nag un sefydliad (neu bobl eraill) – **y cyngor gan eu prifysgol oedd yn cael ei weld fel y cyngor mwyaf buddiol** (28%), yn cael ei ddilyn gan weithiwr ieuencid (23%), yna ffrindiau/teulu (15%), fel y gwelir yn Ffigur 7 isod:

Ffigur 7: Cwestiwn Arolwg Omnibws

Cyngor neu gefnogaeth pwy oedd yr un mwyaf defnyddiol? (ddim ond yn cynnwys y rhai a gysylltodd â mwy nag un sefydliad (neu bobl eraill))



Yn y trafodaethau ansoddol, roedd y bobl ifanc a oedd wedi cael cymorth gan sefydliadau yn aml yn siarad yn gadarnhaol am eu profiadau, yn enwedig lle roeddent wedi datblygu perthynas gyda gweithiwr/**gweithiwr cymorth unigol roedden nhw’n ymddiried ynddo.**

Gofynnwyd i’r cyfranogwyr a allent roi enghreifftiau o bethau a oedd wedi bod yn fuddiol iddynt yng nghyswllt cymorth ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, a daeth nifer o wahanol ffynonellau i’r amlwg. Mae’r rhain wedi’u grwpio yn gyntaf yn ôl ffynonellau mwy ffafriol: canolfannau addysg/

hyfforddiant a Gyrfa Cymru; mudiadau’r trydydd sector ac awdurdodau lleol; cyflogwyr; y llywodraeth; mentoriaid; a chyllid. Yn ail, ffynonellau mwy anffurfiol fel teulu a ffrindiau.

Nid yw’r enghreifftiau wedi’u cysylltu â phrofiadau penodol er mwyn cadw anonymedd y cyfranogwyr.

4.1 Canolfannau Addysg/Hyfforddiant Cefnogol a Gyrfa Cymru

Dywedodd rhai o'r cyfranogwyr fod staff unigol yn eu hysgol wedi bod yn gefnogol. Roedd y rhain yn cynnwys athrawon a oedd yn ymwybodol o amhariad cyfranogwr ac a oedd yn gwneud yn siŵr nad oeddent yn eu rhuthro nac yn rhoi pwysau arnynt, cael gweithwyr cymorth yn y dosbarth, athrawon a oedd yn ymweld â'r cyfranogwr gartref ac yn ei annog i fynd i'r ysgol, ac athro/athrawes amyneddgar a oedd yn helpu unigolyn â swildod eithafol.

“Roedden nhw'n fy ngalw fi allan bob amser achos ro'n i'n un o'r bobl hynny oedd ddim yn mynd i'r ysgol rhyw lawer, felly roedden nhw eisiau gwneud yn siŵr mod i'n gwybod be ro'n i'n ei wneud, ac ati. Felly roedd o'n dda.” (Cyfranogwr digartref, 16-24)

“Roedd gen i athrawon cefnogol iawn yn yr ysgol oedd yn gweithio un-i-un efo fi ac yn rhoi sesiynau cefnogol i mi.” (Person ifanc, 16-24)

Cyfeiriodd rhai hefyd at gynghorwyr gyrfaoel buddiol a rhagweithiol mewnol mewn ysgolion neu golegau.

“Yn yr ysgol, ar gyfer y blynyddoedd hyn, roedd cynghorydd gyrfaoedd fyddai'n siarad efo ni'n rheolaidd am beth roedden ni isio ei wneud pan fydden ni'n gadael yr ysgol neu beth roedden ni isio ei wneud fel gyrfa yn y dyfodol. Byddai'n mynd â ni allan o wersi am 10 munud bob hyn a hyn ac yn rhoi adborth ynglŷn â beth roedd o wedi ei weld neu'n rhoi cyngor am leoedd lle bydden ni'n gallu edrych ar Brifysgolion neu safleoedd swyddi, i gael syniad os nad oeddent ni'n

siŵr beth roedden ni isio ei wneud. Cyngor y cynghorydd gyrfaoedd oedd y cyngor mwyaf buddiol ges i wrth baratoi ar gyfer fy nghamau nesaf. (Person ifanc, 16-24)

Mewn un enghraifft lle'r oedd y cyfranogwr wedi gadael addysg, rhoddodd y cynghorydd gyrfaoedd gyngor ynglŷn â beth y gallai'r cyfranogwr ei wneud er mwyn newid i lwybr galwedigaethol ar gyfer nyrsio – a helpodd i egluro beth oedd prentisiaeth a chwrs mynediad.

Roeddent hefyd wedi cael help i ddeall pa brentisiaethau ac opsiynau prifysgol oedd ar gael, a help i baratoi ar gyfer cyfweiliad.

“Mi gawsom ni ddiwrnodau cyfweiliad lle roedd pobl yn dod i mewn i roi ffug gyfweiliad i ni.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd cyfranogwr arall yn cofio cael help â ffurflen gais i gael lle ar gwrs Addysg Bellach i astudio mecaneg; ac roedd cyfeiriad at brifysgol yn anfon negeseuon ebost rheolaidd yn cynnig cymorth. Roedd wedi bod yn weddol rhydd i un person ifanc gysylltu â choleg drwy ebost, ac o hynny ymlaen roedd y coleg wedi helpu drwy ddarparu gwybodaeth am gyrsiau a oedd ar gael.

“Pan wnes i adael y coleg, anfonodd y coleg ebost ata i yn sôn am gymorth a phethau y galla i eu defnyddio. Ro'n i'n gallu siarad efo'r cynghorydd gyrfaoedd a gofyn iddi hi. Felly mi wnes i siarad efo'r cynghorydd gyrfaoedd a holi ynglŷn â gwahanol lwybrau ... Mi wnes i ddweud bod gen i ddiweddordeb mewn nyrsio ... Mi wnaeth hi roi dealltwriaeth dda i mi o bethau y byddwn i'n gallu eu gwneud. Nid dyma'r diwedd.” (Cyfranogwr NEET, 16-18)

“Emailio coleg rili a gweld pa gyrsiau oedd ar gael. Ac wedyn, ia, 'naethon nhw helpu fi wedyn.’” (Cyfranogwr EET, 16-18)

Disgrifiodd un cyfranogwr sut roedd y coleg chweched dosbarth yn darparu cefnogaeth ar gyfer y camau nesaf drwy ganolfan benodedig yn y coleg. Roedden nhw'n cael negeseuon ebost am swyddi yn rheolaidd, roedd yn hawdd gwneud apwyntiadau ar gyfer sgwrs ac roedd y ganolfan yn anfon arolygon i weld sut roedd y dysgwyr yn dod yn eu blaenau.

Roedd lleoliadau yn y coleg wedi bod yn fuddiol i gyfranogwr arall gan eu bod wedi rhoi gwell syniad iddo sut beth fyddai'r math o waith yr oedd ganddo ddiweddordeb ynddo. Fel mae'n digwydd, fodd bynnag, roedd y cyfranogwr wedi canfod y lleoliadau'n anodd.

O ran iechyd meddwl, roedd un ysgol yn cynnig man i dawelu meddwl dysgwyr, lle byddai athrawon wrth law i sgwrsio neu lle gallai dysgwyr fynd os oeddent yn teimlo'n bryderus neu dan bwysau.

Oherwydd amhariad corfforol yn ogystal â chyfrifoldebau gofalu, roedd coleg wedi rhoi caniatâd i ofalwr ifanc gwneud mwy o astudio gartref. Roedd yr hyblygrwydd hwn wedi bod o gymorth mawr iddo symud ymlaen â'i addysg.

“Yr hyn sy'n fy helpu i lawer mwy mewn gwirionedd, a dylai fod ar gael fwy i bobl eraill: oherwydd fy mhoen, dw i'n cael gweithio gartref, a dw i hefyd yn gallu gweithio fy oriau fy hun. Does dim rhaid i mi fynd ar alwad am amser penodol bob diwrnod.” (Gofalwr ifanc, 16-18)

Roedd Gyrfa Cymru, sydd i'w weld yn aml mewn ysgolion, wedi bod o gymorth i rai o'r cyfranogwyr.

Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys:

- Cymorth i ddatblygu CV;
- Meddwl am wahanol opsiynau gan nad oedd y cyfranogwr yn siŵr beth i'w wneud ar ôl TGAU;
- Ar ôl cydnabod y problemau mawr yr oedd cyfranogwr â phrofiad o ddigartrefedd yn eu hwynebu, ei gyfeirio at gymorth gan yr awdurdod lleol i bobl ifanc;
- Cyfeirio cyfranogwr anabl at gwrs 'pontio' yn y coleg (ond heb roi cymorth ymarferol ynglŷn â sut i ymgeisio amdano).

“Byddwn i'n dweud bod [mudiad cyngor gyrfaoedd] reit dda o ran, nid yn gymaint cyfleoedd gwaith a phethau felly, ond maen nhw'n gwneud llawer o wirio CVs.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

“Roedden nhw'n helpu i roi cyngor ar addysg a phethau felly, achos ro'n i hefyd yn ystyried gwneud prentisiaeth ac ati hefyd.” (Cyfranogwr EET, 19-24)

Ffynhonnell gymorth arall i rai o'r cyfranogwyr oedd darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Roedden nhw'n 'cysylltu' yn rheolaidd ag un cyfranogwr i weld sut hwyl roedd yn ei gael ac yn ei ddiweddarau ynglŷn â'r wybodaeth y byddai arno ei hangen i'w helpu â'r hyfforddiant. Roedden nhw wedi helpu unigolyn arall i ddatblygu CV a pharatoi i ymweld â ffair swyddi (a oedd hefyd wedi'i hargymell ganddynt i'r person ifanc). Roedd rhyngweithiadau wyneb yn wyneb yn y ffair swyddi yn teimlo'n fwy cyfforddus i'r cyfranogwr, a gobeithiol, o'i gymharu ag aros am ymateb mewn ebost.

O safbwynt ariannol, disgrifiodd rhai o'r cyfranogwyr sut roedd coleg wedi

eu cefnogi. Roedd hyn yn cynnwys darparu cyllid ar gyfer tocyn bws am ddim ac ychydig o fwyd (er bod yn rhaid iddyn nhw fodloni gofynion presenoldeb y lwfans EMA o hyd i fod yn gymwys i gael y cymorth hwn); a choleg a oedd wedi helpu cyfranogwr â'i ymdrechion i sicrhau'r Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHCP).

Pwynt arall a wnaethpwyd oedd sut yr oedd asesiadau di-arholiad yn gwneud cyrsiau galwedigaethol yn hygyrch i rai a oedd yn cael trafferth ag arholiadau neu dasgau ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae'n debyg mai dim ond hyd at lefel 2 ar rai cyrsiau yr oedd asesiadau di-arholiad ar gael, a bod arholiadau'n cael eu defnyddio fel arall.



4.2 Mudiadau Trydydd Sector Cefnogol / Ymyriadau Awdurdodau Lleol

Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth roeddent wedi'i gael, a oedd yn cynnwys lleoliadau gwaith, er enghraifft mudiad trydydd sector a choleg lleol a oedd yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi myfyrwyr ag anableddau dysgu a chyflyrau sbectwm awtistiaeth mewn rhaglen pontio i waith. Roedd y cymorth wedi cynnwys help ynglŷn â sut i gael swydd, chwilio am waith, paratoi ar gyfer cyfweiliadau, lleoliadau gwaith a dod o hyd i swydd yn ddiweddar.

“Do'n i ddim wedi trio cael mynediad at ddim byd tan yr wythnosau diwethaf ma, pan ges i fy nghyfeirio at [gwasanaeth cynghori] i gael cymorth. Mi wnes i fwynhau cyfarfod yn y llyfrgell, ro'n i'n gallu ymlacio yno a do'n i ddim yn teimlo mod i dan bwysau.” (Person ifanc, 16-24)

“Mae fy ngweithiwr cymorth i wedi fy nghyfeirio i a dangos i mi i ba gyfeiriad dw i angen mynd, dyna sut y dois i ar eich rhaglen chi.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd mudiad trydydd sector wedi helpu cyfranogwr arall drwy gynnig cyllido prentisiaeth gydag ef. Roedd hyn wedi helpu'r cyfranogwr i ddatblygu hyder a sylweddoli y gallai anelu'n uwch â swyddi yn y dyfodol.

“Mi wnaeth o fy helpu i i gael yr hyder i fynd am swyddi na fyddwn i wedi meddwl y byddwn i'n gallu eu gwneud ychydig flynyddoedd yn ôl, cyn COVID.” (Cyfranogwr EET, 19-24)

I nifer fach o gyfranogwyr, roedd mudiad trydydd sector wedi bod yn 'anhygoel', gan gynnig cefnogaeth eang a gwneud llawer mwy na'r disgwyl. Er enghraifft, roedd un person ifanc wedi cael help i ddod o hyd i gartref mewn argyfwng ar ôl iddi orfod gadael cartref ei rhieni â babi oherwydd bod perthynas wedi chwalu. Yn ogystal, roedd y sefydliad wedi helpu drwy hwyluso ei ryngweithiadau cymdeithasol/meithrin ei hyder, gwella ei hiechyd meddwl a'i chael yn barod ar gyfer swydd, yn ogystal â darparu gweithiwr cymorth enwebedig i droi ato gydag unrhyw broblemau.

“Roedden nhw'n gallu rhoi tŷ i mi ... Un o'u tai i deuluoedd ydy hwn. Mi wnaethon nhw fy helpu i efo fy CV a hyfforddiant ar gyfer swyddi, a fy helpu i fod yn fwy cymdeithasol, mynd allan mwy gyda fy merch ... Os ydw i'n cael unrhyw drafferth, problemau neu rywbeth, dw i'n mynd yn syth ati hi ... Maen nhw'n gallu dod o hyd i'r person dw i ei angen ar gyfer unrhyw beth.” (Cyfranogwr NEET, 19-24)

“Roedden nhw'n helpu efo popeth, yn y bôn. Achos doedd gen i ddim llawer o hyder ar ôl COVID, wrth gwrs, achos o'n i wedi bod yn sdcy yn y tŷ am gymaint o amser ... Mater o fynd yn ôl allan yna. Do'n i ddim wedi arfer bod yn ôl yn yr amgylchedd yna ... Ro'n i mewn rhigol, yn y bôn, wedyn, dw i ddim yn gwybod. Mi wnaeth [gweithiwr cymorth] fy nghael i allan o'r rhigol. Mi wnaeth o fy nghael i ar y llwybr cywir, roedd popeth yn mynd yn rhyfeddol efo fo, yn gofalu am bopeth.” (Cyfranogwr NEET, 19-24)

Mewn ychydig o achosion, cyfeiriodd cyfranogwyr at fudiadau trydydd sector a menter awdurdod lleol a oedd wedi helpu i gael mynediad at gyrsiau ar-lein (e.e., cymorth cyntaf) a chymwysterau ychwanegol, yn ogystal â phrofiad gwaith. Roedd y cyrsiau hyn wedi helpu i wella CVs a lefelau hyder. Roedd yr un fenter awdurdod lleol wedi sicrhau bod gweithiwr cymorth ar gael bob amser i'r bobl ifanc roedd yn eu cefnogi, er enghraifft â chyngor ar chwilio am waith a defnyddio banciau bwyd.

“Dw i'n meddwl ar hyn o bryd dw i'n trio cael mwy nag un cymhwyster yma. Ac wedyn mae'n debyg yn trio dod o hyd i swydd ym maes arlywyo. Dw i wedi gwneud llyfrynau [addysg], dw i wedi gwneud Cymorth Cyntaf, Gwasanaeth i Gwsmeriaid, Diogelwch Adeiladau ... Ers dod yma mae fy hyder wedi cynyddu a dw i 'di bod yn siarad llawer mwy, rhywbeth do'n i ddim yn arfer ei wneud.” (Cyfranogwr digartref, 16-24)

Roedd un cyfranogwr anabl wedi cael cynnig swydd gan fudiad trydydd sector a oedd yn ei gefnogi. Roedd yr unigolyn yn teimlo o'r diwedd bod cyflogwr yn deall ei amhariad ac wedi egluro rôl y swydd mewn ffordd y gallai ei deall. Roedd yn teimlo ei fod wedi cael ei ysgogi oherwydd bod rhywun yn gweld ei botensial.

Roedd cymorth gwerthfawr wedi'i gael hefyd gan ddarparwyr byw â chymorth, yn ôl rhai o'r cyfranogwyr a oedd â phrofiad o ddigartrefedd. Roedd y darparwyr yn gallu cynnig mwy o gyllid os oedd y cyfranogwr yn penderfynu rhentu ar ei ben ei hun i wneud yn siŵr nad oedd yn canfod ei hun yn ddigartref eto.

Roedd gwneud ffrindiau yn y llety â phobl a oedd wedi cael profiadau tebyg yn ffynhonnell gymorth arall a oedd yn cael ei chroesawu.

Roedd y ffynonellau cymorth ychwanegol gan sefydliadau yn cynnwys:

- Anogwr Gwaith rhagweithiol a chefnogol drwy raglen yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri;

“Ro'n i'n teimlo beth bynnag ro'n i'n ei ofyn, roedd o'n cael ei wneud cyn bo fi ar fin gofyn y peth nesaf, felly roedd o fel tasa hi'n gwybod beth roedd ei angen ar gyfer y cymorth hwnnw.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

- Cwmni theatr a oedd wedi helpu cyfranogwr NEET i ddatblygu mwy o hyder.



4.3 Cyflogwyr Cefnogol

Disgrifiodd nifer fach o gyfranogwyr EET sut **roedd cyflogwyr wedi bod o gymorth mawr â'u hanghenion hyfforddiant a chyflogaeth.** Mewn un enghraifft, roedd y cyfranogwr wedi cael cynnig prentisiaeth gan salon harddwch lleol ar ôl i'r person ifanc adael y brifysgol.

Dywedodd un arall fod cyflogwr gofal plant **wedi ei helpu i ddatblygu 'cynllun pum mlynedd',** gan gynnwys mynychu cysiau hyfforddiant i gael cymwysterau mewn gofal plant. Enghraifft arall o gyflogwr cefnogol oedd campfa a gynigiodd waith amser llawn i'r cyfranogwr i helpu i dalu am gymhwyster prentisiaeth yr oedd y cyfranogwr eisiau ei gael ond ei fod yn gorfod talu amdano ei hun.

“Cefnogol iawn. Mae gennym ni gynllun pum mlynedd i mi nawr, pa gyrsiau y galla i eu gwneud drwy’r swydd ac ie, gwahanol yrfaoedd y galla i fynd iddyn nhw ar ôl gwneud y swydd hon.” (Cyfranogwr EET, 19-24)

Mewn ychydig o achosion, roedd y cyfranogwyr yn dweud sut roeddent wedi gallu dysgu sgiliau newydd tra roeddent ar leoliadau gwaith, fel ateb galwadau ffôn a defnyddio eboost. Yn achos un person ifanc mewn gwaith, roedd ei bennaeth wedi dweud wrtho y gallai wneud prentisiaeth drwy goleg arbennig, ac roedd y cam hwnnw i'r cyfeiriad cywir wedi bod yn fuddiol.

“Wel, boss fi ‘naeth ddeu’tha fi fynd i Coleg [coleg lleol] oherwydd fan’na lle mae’r unig gwrs sydd rownd fa’ma. Otherwise ‘sach chdi’n gorfod mynd i [lleoliad], dwi’n meddwl, i studio fo.” (Cyfranogwr EET, 16-18)

4.4 Adrannau Cefnogol o’r Llywodraeth/ Mentrau

Weithiau roedd cyfranogwyr yn dweud bod y Ganolfan Waith wedi eu helpu mewn ffyrdd gwahanol ar eu llwybrau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys:

- Trefnu cyfweliad a oedd wedi arwain at swydd i’r cyfranogwr;
- Darparu lle hawdd i fynd i gyfweliadau;
- Cyfeirio cyfranogwyr at fudiadau trydydd sector perthnasol i gael rhagor o gymorth;
- Gan ystyried salwch unigolyn, roedd un Ganolfan Waith wedi awgrymu y dylai cyfranogwr gymryd seibiant o chwilio am waith ar ôl cael diagnosis iechyd meddwl yn ddiweddar.

“Maen nhw’n fy helpu i i’w gael o, achos maen nhw’n dod â phobl i’ch cyfweld chi yn y Ganolfan Waith. Felly, dydy o ddim fel teithio iddo yn barod p’un bynnag.” (Cyfranogwr NEET, 19-24)

“Yn ddiweddar – diolch i Gredyd Cynhwysol a’r Ganolfan Waith – mi wnes i gael cyfweliad [mewn caffii]. Ac mi aeth y cyfweliad yn dda iawn.” (Gofalwr ifanc, 16-18)

Roedd menter yn cael ei rhedeg gan sefydliadau addysg uwch, ac yn cael ei hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru, wedi helpu un cyfranogwr anabl i gael lleoliad gwaith perthnasol yr oedd y cyfranogwr yn teimlo’n frwdfrydig iawn yn ei gylch.

Roedd arbenigwr anabledd a oedd yn darparu cymorth cyflogaeth a sgiliau

i lywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig wedi helpu un cyfranogwr i ysgrifennu CV a dod o hyd i leoliadau gwaith. Roedd rhai lleoliadau gwaith yn fwy llwyddiannus na’i gilydd fodd bynnag.

4.5 Mentoriaid

Mewn nifer fach o achosion, disgrifiodd cyfranogwyr gymorth y gellid ei labelu yr un fath neu yn debyg i fentoriaeth. Er enghraifft, roedd rhai yn siarad am fudiadau trydydd sector a oedd wedi bod ar gael ac yn gefnogol dros gyfnod, ac **roedd rhai pobl ifanc yn amlwg wedi datblygu perthynas gadarnhaol â gweithwyr cymorth penodol/aelodau o’r staff** y gallent ymddiried ynddynt yn y sefydliadau hyn.

Roedd cyfranogwr arall yn siarad am rywun yn y brifysgol a oedd wedi cael mynediad drwy’r Lwfans i Fyfywrwyr Anabl ac yn cydnabod ei bod weithiau’n teimlo’n haws i siarad â rhywun nad oedd yn gysylltiedig â’r teulu a chylchoedd cymdeithasol eraill.

“Pan wnes i golli fy swydd, mi wnes i ddal i gadw mewn cysylltiad â [y gweithiwr cymorth]. Roedd o’n dal i anfon negeseuon ata i bron iawn bob dydd i weld os oeddwn i’n iawn. Roedd y cymorth gan y tîm yn ardderchog. Felly, a dweud y gwir, [maen nhw] wedi gwneud cymaint o les i mi, alla i ddim diolch digon iddyn nhw.” (Cyfranogwr NEET, 19-24)

“Mae fy mentor ieuentid wedi dylanwadu arna i, hi yw’r unig un sy’n gwrando.” (Person ifanc, Caerdydd)

“Mae’r cymorth wedi bod yn fuddiol ac yn barhaus, negeseuon a galwadau ffôn wythnosol / dyddiol.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd gwybod am rywun a oedd wedi cychwyn ei fusnes ei hun yn yr un sector yn ffynhonnell gwybodaeth ddefnyddiol i un person ifanc a oedd yn ystyried cychwyn ei fusnes ei hun.

4.6 Cymorth Ariannol

Roedd y Lwfans i Fyfywrwyr Anabl wedi bod o gymorth mawr i rai cyfranogwyr anabl a oedd eisiau symud ymlaen â’u hastudiaethau prifysgol.

“Roedd y Lwfans i Fyfywrwyr Anabl yn bwysig iawn i mi o ran cael cyfarpar da ... ‘Dach chi’n cael y cyfarpar yma ar liniadur, ac mae’n gwneud sgwennu a darllen yn llawer haws, pan mae’n fater o sgwennu traethodau ac ati.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

Roedd y Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal wedi helpu un myfyriwr ar ôl cael trafferthion yn yr ysgol i gael y cymorth yr oedd ei angen ar gyfer ei amhariad.

“Yn yr ysgol, doedd o ddim ... o’n i’n methu cael y cymorth i ddechrau, ond pan ges i fy nghynllun addysg, iechyd a gofal, sy’n ddogfen gan y cyngor, mi wnes i gael y cymorth ro’n i ei angen yn yr ysgol ac mi aeth hynny â fi ymlaen i’r coleg hefyd.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

4.7 Aelodau o’r Teulu / Ffrindiau Cefnogol

Siaradodd rhai cyfranogwyr am **y cymorth cyffredinol roeddent wedi ei gael gan aelodau o’r teulu.** Roeddent yn eu gweld fel lle amlwg i fynd am gyngor, a dywedodd rhai na fyddent yn gwybod lle arall i droi.

“Mae mam yn gefnogol a hi ydy fy mhrif fodel rôl gartref.” (Person ifanc, 16-24)

“Dw i’n aros efo nain felly mae hi’n dylanwadu arna i – roedd hi’n gweithio’n galed pan oedd hi mewn gwaith a dw i isio bod fel hi a thrio ei chefnogi hi fwy fel mae hi wedi fy nghefnogi i.” (Person ifanc, 16-24)

Roedd rhiant wedi cynghori un cyfranogwr mewn addysg i gael crefft, ac roedd ewythr wedi cynghori’r person ifanc ynglŷn â pha grefft i’w dilyn. Enghraifft arall oedd mam yn anghytuno ar ran y cyfranogwr â’r lleoliadau a gynigiwyd gan raglen pontio i waith. Helpodd y rhiant y cyfranogwr a oedd yn NEET cyn hyn i gael lleoliad mwy priodol gyda manwerthwr mwy.

“Nes i gael cyngor gan Mam. Do’n i’m yn siŵr be i neud. Ac wedyn ‘wnaeth hi bointio fi lawr y lôn o fynd mewn i trade. Ac wedyn nes i jyst ffeindio apprenticeship wrth ofyn rownd.” (Cyfranogwr EET, 16-18)

Mewn ychydig o achosion, **roedd aelodau o’r teulu wedi gofyn wrth ffrindiau am gyfleoedd i gyfranogwyr,** er enghraifft gweithio gyda darparwr gofal plant. Roedd chwaer un cyfranogwr wedi trefnu prentisiaeth iddi yn ei salon gwallt ei hun.

Felly gallai ffrindiau chwarae rhan bwysig hefyd, er enghraifft roedd cael ffrind ar yr un cwrs wedi helpu un cyfranogwr â chymhelliant i ddal ati i astudio. Mewn achos arall, **roedd dau ffrind anabl yn cefnogi ei gilydd** â’r gwahanol sgiliau a oedd ganddynt. Roedd un yn cefnogi’r llall â sefyllfaoedd lle’r oedd angen siarad â phobl eraill, tra byddai’r llall yn helpu â gweithgareddau fel sicrhau bod y cyfranogwr yn bwyta prydau bwyd yn rheolaidd. Roedd gweld dysgwyr eraill yn dal i ymgysylltu â’r cwrs wedi bod yn gymhelliant i un cyfranogwr hefyd.

“Mae gen i ffrind sydd ychydig o flynyddoedd yn hŷn na fi ac mae hi’n fy helpu i â mynd i gyfarfodydd, a gwneud yn siŵr mod i’n bwyta pan mae’n amser bwyd, a dw i’n ei helpu hi os ydy hi’n methu siarad weithiau, mi wna i siarad ar ei rhan hi.” (Cyfranogwr anabl 16-24)



5.0
CEFNOGAETH SYDD
EI HANGEN



Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol

Roedd mwy nag 1 o bob 2 person ifanc 16-24 oed (53%) yn dweud bod **ganddynt ddi-ddordeb mewn cael help neu gefnogaeth** i'w helpu i gyflawni eu nodau addysg, hyfforddiant neu waith. Roedd hyn yn uwch ymhlith menywod (63%, o gymharu â 46% ymhlith gwrywod) ac ymhlith y rhai a oedd mewn addysg/


ddim yn gweithio (63%, o gymharu â 46% o'r rhai a oedd yn gweithio).

Roedd nifer o feysydd lle'r oedd pobl ifanc 16-24 oed yn dweud y byddai'n fuddiol cael help neu gefnogaeth. Yn unol â rhai o'r rhwystrau a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, **help i feithrin hyder oedd y prif faes** lle

roeddent yn teimlo bod arnynt angen help neu gefnogaeth (54%), yn cael ei ddilyn gan gyngor ar gyfleoedd gwaith (47%), help â chwilio am swyddi a gwneud cais (42%), help i gael profiad gwaith (41%) a hyfforddiant i ddatblygu sgiliau (41%). Mae'r rhestr lawn i'w gweld yn Ffigur 8 isod:

Ffigur 8: Cwestiwn Arolwg Omnibws

Mae llawer o feysydd lle byddai'n fuddiol i bobl ifanc 16-24 oed gael help neu gefnogaeth, a'r prif faes y maent yn teimlo bod angen help neu gefnogaeth arnynt yw help i feithrin hyder.



Yn y trafodaethau ansoddol, anogwyd cyfranogwyr i awgrymu pa gymorth y byddai arnynt ei angen i'w helpu i symud ymlaen ar eu llwybrau i'r addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yr oedd arnynt ei eisiau. Daeth y themâu a ganlyn i'r amlwg:

5.1 Mwy o Ymwybyddiaeth o Gymorth

Roedd rhai yn credu y dylid gwneud mwy i gynyddu ymwybyddiaeth o'r opsiynau cymorth sydd ar gael i bobl ifanc a beth allai'r cymorth ei wneud iddyn nhw, gan gynnwys opsiynau fel Gyrfa Cymru.

“Efallai mwy o daflenni i egluro bod help ar gael, efallai postio mwy o bethau ar y cyfryngau cymdeithasol am helpwyr.”
(Cyfranogwr anabl, 16-24)

“Ar ôl bod efo [gweithiwr cymorth], mae hi wedi fy ngwneud i'n ymwybodol o raglenni eraill.”
(Person ifanc, 16-24)

5.2 Gwell Canllawiau ar Lwybrau

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n rheolaidd y byddent wedi elwa o gael **mwy o gymorth teilwredig yn yr ysgol/yn gynharach ar y siwrnai**, yn benodol i'r unigolyn a'i anghenion/sefyllfa. Roedd arnynt hefyd eisiau **gwybod i ble i droi i gael help yn nes ymlaen ar eu llwybr**, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd annisgwyl fel gadael addysg yn gynnar neu golli swydd.

“Dechrau yn gynnar yn yr ysgol, dweud wrth bobl ble gallan nhw gael help a sut.” (Person ifanc, 16-25)

“Mwy o help i bobl sy'n iau hefyd efallai, cyn iddyn nhw gyrraedd y diwedd neu fod eisiau cael swydd ... A thrïo dod o hyd i'r help maen nhw ei angen cyn iddyn nhw sylweddoli bod arnyn nhw angen yr help a bod hynny ganddyn nhw.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

“Dw i'n meddwl y dylai o fod yn fwy seiliedig ar dargedau, dw i'n meddwl y dylech chi drïo cyrraedd allan i ysgolion ... dw i'n meddwl os 'dach chi'n rhoi rhywun ar y trywydd iawn, dw i newydd sylweddoli wrth siarad efo chi rŵan ges i ddim llawer o gymorth ynglŷn â be ro'n i'n mynd i'w wneud yn y pen draw.” (Cyfranogwr EET, 19-24)

Dywedodd un gweithiwr cymorth y byddai cyfranogwr ‘wedi hoffi cael **sicrwydd hyd yn oed os nad oes ganddi raddau da, bod opsiynau o hyd y tu allan i addysg.**’

Roedd rhai ceisiadau am wneud mwy o gysylltiadau diriaethol rhwng yr hyn a oedd yn cael ei ddysgu yn yr ysgol a beth y gallent ei wneud fel gwaith yn y dyfodol, i ysgogi ac ysbrydoli. Hefyd, cael trafodaethau o oedran cynnar ynglŷn â pham roedden nhw'n dysgu, beth oedd y cyd-destun ar gyfer yr hyn roedden nhw'n ei ddysgu.

“Dylid cael mwy o gyngor a chysylltiad rhwng pynciau sy'n cael eu dysgu mewn ysgolion a'r llwybrau sydd ar gael.” (Person ifanc, 16-24)

“Cyn i ddysgwyr ddewis eu hopsiynau; dylai gynnwys sesiynau gyrra yn rheolaidd drwy gydol y cyfnod yn yr ysgol gyda chynrychiolwyr, a/neu rieni, o sectorau galwedigaethol amrywiol yn siarad ar y rhain. Dylai ar-lein fod yn faes canolog hawdd mynd ato a hawdd ei ddefnyddio sy'n cynnwys yr holl wybodaeth.” (Person ifanc, 16-24)

Awgrymodd person ifanc arall y byddai mwy o weithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol yn helpu dysgwyr i feddwl am y posibilïadau sydd o'u blaenau; **roedd ymdeimlad fod eu gorwelion a'u dyheadau yn cael eu cyfyngu yn rhy gynnar**, ac y gallai ysgolion wneud mwy i'w hysbrydoli ar gyfer y dyfodol.

Roedd ceisiadau am wybodaeth fwy cynhwysol ynglŷn â beth oedd y gwahanol gymwysterau a beth y gallent eu galluogi i wneud, beth bynnag eu gallu academaidd. Gallai diagram/llwybr gweledol, yn dangos llwybrau amrywiol ac yn tynnu sylw at y gallu i newid er

mwyn sicrhau nad oedd penderfyniadau a oedd yn teimlo'n frawychus yn cael eu rhoi o'r neilltu, fod yn ddefnyddiol i lawer.

“Mae ffyrdd eraill o amgylch pethau yn hytrach na mynd yn syth i addysg a choleg a phrifysgol. Dw i'n teimlo bod cymaint o wahanol gyfeiriadau y gallwch chi fynd iddyn nhw ar ôl ysgol uwchradd ac ar ôl coleg, neu lle bynnag 'dach chi'n teimlo ydy'r lle gorau i chi, ond dw i'n teimlo bod angen i Lywodraeth Cymru gefnogi pobl eraill hefyd, ac nid yr ochr addysgol yn unig.” (Cyfranogwr EET, 19-24)

Roedd awydd i weld cefnogaeth barhaus yn hytrach nag untro i'w helpu i fod mor effeithiol ag y gall fod. Roedd yn amlwg nad oedd cefnogaeth gyffredinol ac ysbeidiol yn debygol o weithio'n effeithiol; roedd angen annog/ helpu pobl ifanc ar hyd y llwybr.

“Sgwrs un-i-un efo pobl. Eu paratoi nhw. Ac yn amlach. Cael ychydig bach mwy o gefnogaeth yn fwy aml.” (Cyfranogwyr digartref, 16-24)

Roedd rhai yn credu bod cefnogaeth wyneb yn wyneb yn fwy personol ac y gallai oresgyn y problemau a brofwyd wrth geisio ymchwilio i wybodaeth ar-lein, ond roedd eraill yn awgrymu y gallai cefnogaeth wyneb yn wyneb fod yn rhwystr weithiau. Mae'n debyg mai cyfuniad o gefnogaeth wyneb yn wyneb a chefnogaeth ar-lein fydd yr ateb gorau; **mae teilwra'r gefnogaeth i'w hanghenion** a lleihau'r rhwystrau yn rhan o'r her.

“Mae cyfarfod wyneb yn wyneb yn annymunol nid yn unig i mi ond i nifer, achos 'dyw taith bws am sgwrs 30 munud ddim yn ddelfrydol pan mae arian eisoes yn brin.

“Dal i gynnig ffyrdd amrywiol o gysylltu â ni, dw i ddim yn hoffi siarad ar y ffôn drwy'r adeg. Mae tecstio a negeseuon WhatsApp wedi gweithio'n dda iawn. Dw i'n hoffi cyfarfod wyneb yn wyneb hefyd, mae'n fwy personol ac wedyn dw i'n teimlo mwy o gysylltiad ac yn gwybod gyda phwy rydw i'n gweithio.”

Gallai cefnogaeth â llwybr gynnwys help â cheisiadau am swyddi, paratoi ar gyfer cyfwelliadau, gwneud CV a datganiad personol a hefyd meithrin hyder, cynyddu cymhelliant a chymorth i reoli cyllid.

O safbwynt gweithiwr cymorth, nid oedd yn ymddangos bod un sefydliad a oedd yn cadw'r holl wybodaeth ynglŷn â beth oedd ar gael i gefnogi pobl ifanc wrth iddynt bontio o ysgol i'w cam nesaf. Nid oedd yn ymddangos ychwaith bod un sefydliad a oedd yn gallu helpu a chefnogi pobl ifanc wrth iddynt gymryd y camau hyn.

“Does neb yn cadw'r wybodaeth yna i gyd pan 'dach chi'n 16. Dydy [mudiad cyngor gyrraedd] ddim yn gwybod am bopeth sy'n digwydd, dydy colegau ddim yn gwybod am bopeth sy'n digwydd. Dydy ysgolion ddim yn gwybod popeth. Does neb yn cadw'r holl wybodaeth yna.” (Gweithiwr cymorth cyfranogwr anabl, 16-24)

5.3 Cefnogaeth sy'n Gysylltiedig ag Anabledd neu Amgylchiadau

Roedd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau hyn yn ymwneud â lleoliadau addysgol, ac yn cynnwys:

- Ffyrdd mwy sensitif o egluro anableddau cudd i staff canolfannau addysg rhag gwneud i bobl ifanc deimlo'n annifyr;

“Dw i'n meddwl ychydig o hyfforddiant [i staff addysgu] lle mae ychydig yn fwy o'r neilltu, lle 'dach chi ddim yn gorfod dweud o flaen pawb, 'O ie, mae gen i ADHD. 'Dach chi'n mynd i orfod helpu fi'.” (Cyfranogwr NEET, 16-18)

- Staff ysgol a chyflogwyr i gael gwell dealltwriaeth o'r heriau a wynebir gan ofalwyr ifanc;

“Fy mhrofiad personol i yw bod yr athrawon wastad wedi gwneud i mi deimlo fel taswn i'n gwneud ati pan dw i'n sôn am y pethau dw i'n eu gwneud gartref.” (Gofalwr ifanc, 16-18)

- Gwell cymhareb dysgwr i weithiwr cymorth ystafell ddosbarth yn yr ysgol er mwyn gwella ansawdd y gefnogaeth;

“Roedd deg o blant yn y dosbarth achos wrth gwrs ni oedd y rhai ag anawsterau dysgu ac ati. Dim ond un gweithiwr cymorth fyddai yno, neu weithiau ddau weithiwr cymorth os oeddech chi'n lwcus, felly doedden nhw ddim yn gallu

helpu pawb drwy'r adeg ac ati. Dw i ddim yn gwybod, efallai cymorth ychwanegol i bobl sydd â'r mathau yma o anghenion ac ati.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

- Cyfleoedd **dysgu mewn fformat gwahanol** i'r rhai sy'n methu ag eistedd mewn dosbarth am gyfnod hir – rhywbeth ag elfennau mwy ymarferol yn hytrach nag academaidd;

“Cael rhywle efallai i bobl sydd ddim yn gallu eistedd mewn dosbarth a dysgu. Achos fyddwn i ddim yn gallu gwneud, dw i'n siŵr ... efallai ar nos Fawrth a nos lau rhwng pump a hanner awr wedi saith, y gallech gael dosbarth y byddwch chi'n gwneud pethau ymarferol efo nhw. Taswn i'n gwneud Safon Uwch fel yna, mae'n debyg y byddwn i'n gallu ei wneud.” (Cyfranogwr NEET, 16-18)

- Gwell cefnogaeth gan gyflogwyr sy'n **cydnabod anghenion staff**, er enghraifft er mwyn i we-ithwyr ddal i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi ar ôl gorffen yr hyfforddiant cynefino.

5.4 Mentoriaeth a Chefnogaeth Emosiynol

Dywedodd rhai o'r cyfranogwyr y byddent yn hoffi cael **unigolyn enwebedig y gallent droi ato am gyngor** a/neu gael eu cyfeirio at arweiniad pellach dros gyfnod hwy. Roedd cred y byddai gwybod bod y gefnogaeth barhaus yno hefyd yn helpu â chymhelliant, ac **yn rhoi sicrwydd i'r person ifanc bod yr hyn roedd yn ei wneud yn iawn.**

“Fel fy nghwrs coleg, mi wnes i ymgeisio am un yn [lleoliad] yn ddamweiniol pan o'n i'n trio gwneud cais am un yn [lleoliad arall]. Roedd yn rhaid i mi ffonio'r coleg heddiw a gofyn iddyn nhw ei newid i mi. Cael rhywun y galla i ofyn iddo, ‘Ydw i'n gwneud y peth iawn?’ (Gofalwr ifanc, 16-18)

Byddai angen i'r unigolyn a fyddai'n darparu'r cymorth allu dangos cydymdeimlad, a pheidio â gwneud i'r person ifanc roedd yn ei gefnogi deimlo'n dwp neu deimlo gormod o gywilydd i ofyn am help â thasgau y byddai pobl eraill yn eu gweld yn hawdd.

“Cael rhywun yno sy'n gallu deall be dw i'n mynd drwyddo fo, pa mor rhwystredig dw i'n teimlo wrth weld pobl sy'n gallu sgwennu, sillafu, gwneud pethau ... Achos fy hun, dw i bob amser yn teimlo cywilydd pan dw i'n dweud wrth rywun ‘dyma'r help dw i ei angen’ achos wrth gwrs ro'n i'n cael fy mwlio'n ddrwg yn yr ysgol uwchradd ... Mae fy hyder i wedi bod yn isel erioed.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

Roedd ar rai cyfranogwyr eisiau cymorth i'w helpu i gredu ynddyn nhw eu hunain a datblygu hyder, rhywbeth y gallai unigolyn o'r fath ei gynnig drwy ganolbwyntio ar y

pethau roedd y person ifanc yn gallu eu gwneud yn hytrach na'r pethau nad oedd yn gallu eu gwneud.

5.5 Cyfleoedd Profiad Gwaith

Yn achos y rhai hynny yr oedd eu dyheadau yn cynnwys mwy o opsiynau ar gyfer profiad gwaith, roedd angen i'r rhain gynnwys cyfleoedd a oedd yn ymwneud â beth y byddent yn hoffi ei wneud yn ddiweddarach yn eu hoes, ond a oedd hefyd yn addas i'w hamgylchiadau o ran eu cymwysterau ac unrhyw ffactorau eraill fel amhariad meddyliol neu gorfforol neu gyfrifoldebau gofalu. Gofynnodd un cyfranogwr [yng ngeiriau'r gweithiwr cymorth] am

“Fwy o gyfleoedd ar gyfer profiad ymarferol/sesiynau blasu ar draws llwybrau galwedigaethol i alluogi dysgwyr i ddeall sut bethau ydy'r swyddi hyn/disgwyliadau.” (Person ifanc, 16-24)

Awgrymwyd hefyd y dylai fod yn haws i bobl ifanc, nad oes ganddynt y cymwysterau o bosibl, neu a allai fod yn cael trafferth â CV a phwysau cyfweiliadau, allu dangos i gyflogwyr beth y gallent ei wneud (e.e., drwy fideo).

Roedd ceisiadau yn ymwneud â chyflogwyr hefyd, gan gynnwys yr awydd iddynt:

- Fuddsoddi mwy o amser yn y rhai sydd angen mwy o gefnogaeth i ddechrau i allu dangos beth y gallant ei wneud;
- Bod yn fwy ymwybodol a dangos mwy o ddealltwriaeth o'r hylblygrwydd sydd ei angen ar gyfer rhai pobl ifanc, er enghraifft, gallu gweithio am amser cyfyngedig yn unig ar y tro oherwydd amhariad;
- Helpu staff, a'r rhai ar leoliadau, i ddatblygu eu sgiliau a'u cymwysterau.

5.6 Cefnogaeth sy'n Gysylltiedig â Chyrsiau

Roedd rhai awgrymiadau yn ymwneud â chefnogaeth yn canolbwyntio ar addasrwydd, ac argaeledd, cyrsiau i bobl ifanc ar bynciau roedden nhw o ddifri eisiau eu hastudio. Gallai hyn gynnwys mwy o gyrsiau sydd wedi'u haddasu ar gyfer amhariad megis ADHD (e.e., mwy ymarferol nag academaidd), neu ag oriau hyblyg i ofalwyr ifanc.

“Dw i'n meddwl y dylai pawb gael cyfle i wneud rhywbeth mae o wirioneddol isio ei wneud, achos wedyn mae gennych chi fwy o gymhelliant i wneud hynny. Pan mae'r opsiwn yna'n cael ei gymryd oddi arnoch chi, achos wrth gwrs mae arnoch chi angen TGAU penodol i wneud y peth, dydy o ddim yn braf, ac mae rhywun yn rhoi'r ffidil yn y to.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

Gallai profiad ymarferol o gyrsiau â sesiynau blasu hefyd helpu rhywun i wneud penderfyniad ynglŷn â'r camau nesaf. Byddai cyrsiau ar-lein yn rhoi mwy o hylblygrwydd i riant ifanc neu rywun sy'n gweithio'n rhan-amser; ond gallai cyrsiau wyneb yn wyneb helpu rhywun i ddal i ganolbwyntio, er enghraifft dywedodd un cyfranogwr NEET na fyddai'n gallu cwblhau rhywbeth ar-lein oherwydd bod pethau'n tynnu ei sylw.

“Tua mis yn ôl 'naeth ysgol ni fynd â ni i Brifysgol Bangor am ddiwrnod, ac oedd 'na lwyth o ysgolion yna. Oedd pawb yn licio fo achos oedd fatha open day i roi fatha blas i ni. Dwi'n meddwl ella mwy o organised trips i fynd i lefydd achos wedyn ti'n gweld o in real life.” (Cyfranogwr EET, 16-18)

5.7 Cynyddu Cyllid


Roedd rhai'n teimlo y byddai mwy o gyllid i gefnogi pobl ifanc yn fuddiol, er enghraifft:

- Cludiant cyhoeddus am ddim i bobl ifanc;
- Gwell cymorth ariannol i'r rhai mewn llety â chymorth er mwyn iddynt allu fforddio gweithio a pheidio â cholli budd-daliadau; ac yn ddelfrydol eu helpu i symud o lety â chymorth gan fod y rhent yn eu rhwystro rhag gweithio;
- Cymorth ariannol ar gyfer cyrsiau galwedigaethol;
- Gwell cefnogaeth â cheisiadau am gyllid;
- Gwybod pa gymorth sydd ar gael i ddechrau busnes newydd (a chymorth â phrif anghenion busnesau bach o bosibl, e.e., marchnata, cyllid, ac ati).

5.8 Awgrymiadau Ychwanegol

Roedd yr awgrymiadau eraill yn cynnwys:

- Mwy o'r un fath gan sefydliadau sy'n cefnogi pobl ifanc ar hyn o bryd;
- Mwy o sesiynau (fel y rhain) sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc rannu sut maen nhw'n teimlo / lleisio eu barn;
- Help i reoli pwysau, gorbryder a sefyll arholiadau, a rheoli amser;
- Mwy o dai i bobl ifanc; a thai â chymorth i fod yn bellach o ganol trefi er mwyn lleihau cyfleoedd ar gyfer ymddygiad sy'n achosi risg;
- Sicrwydd ansawdd i ddarparwyr tai â chymorth fel bod pawb sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn cael y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen i allu symud ymlaen;
- Ffyrdd o glywed gan bobl sydd â phrofiad o'r swydd y gallai'r person ifanc fod â diddordeb ynddi, gan gynnwys cyfleoedd i rwydweithio â phobl eraill a allai eu helpu mewn rhyw ffordd;
- Addysgu pobl ifanc i ddeall sut y gallant ddangos eu profiad/set sgiliau wrth ymgeisio am swyddi;
- Cymorth i ddysgu Saesneg i'r rhai hynny sydd wedi cyrraedd o wlad arall.





6.0
YMGYSYLLTU’N
FWY EFFEITHIOL Â
PHOBL IFANC



Drwy gydol y trafodaethau roedd yn amlwg bod pobl ifanc yn cael trafferth â nifer o rwystrau a oedd yn eu hatal rhag cael mynediad at gefnogaeth a/neu leoliad a chyflawni eu dyheadau. Roedd llawer o gyfranogwyr yn ei chael hi'n anodd i ddweud beth fyddai'n helpu ag ymgysylltu, ac roedd rhai ceisiadau am fwy o gefnogaeth un-i-un, yn dechrau yn yr ysgol uwchradd, gan gynnwys gwell arweiniad ar lwybrau. Fodd bynnag, roedd rhai hefyd yn teimlo bod ymgysylltu yn debygol o gynyddu drwy wneud cefnogaeth i bobl ifanc yn gyffredinol yn fwy rhagweithiol ac yn haws iddynt gael mynediad ati.

“Os yw'n anodd cael gafael ar y gefnogaeth fydd y rhan fwyaf ddim yn ei derbyn. Pe bai mwy o gyfathrebu a bod y gefnogaeth yn targedu pobl sydd ei hangen efallai y byddai mwy o lwc â'r niferoedd sydd eisiau cefnogaeth. (Person ifanc, 16-24)

Roedd nifer o awgrymiadau yn ymwneud â gwella ymgysylltu, a thrwy hynny gynyddu ymwybyddiaeth o sefydliadau cymorth, a mynediad atynt, ac yn fwyaf penodol y Warrant i Bobl Ifanc:

- Defnyddio sianeli y mae pobl ifanc yn eu defnyddio;
- Defnyddio fformatau sy'n ennyn diddordeb;
- Optimeiddio cynnwys a negeseuon;
- Optimeiddio dyluniad;
- Ystyried rôl hunaniaeth noddwyr.

6.1 Sianel

Fel y byddech yn disgwyl, roedd llawer o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ymhlith y cyfranogwyr, yn enwedig Instagram, TikTok, Snapchat a Facebook. Cyfeiriodd nifer fach hefyd at Twitter, WhatsApp, YouTube a Discord. O ganlyniad, roeddent yn tueddu i deimlo y **byddai'r cyfryngau cymdeithasol yn sianel allweddol i'w cyrraedd.**

Dyweddodd gweithiwr cymorth digartrefedd eu bod yn defnyddio Snapchat i ryngweithio â chleientiaid fel arfer. Dywedodd un arall o awdurdod lleol fod ganddyn nhw ap â'r holl wybodaeth am gefnogaeth arno ar gyfer pobl ifanc (er nad oedd yr unigolyn

roedden nhw'n ei gefnogi a gymerodd ran yn yr ymchwil yn gwybod amdano).

“Achos pobl sydd yr un oed â fi rŵan – dw i'n 21 oed – dw i'n defnyddio Instagram dipyn, a dw i ddim ar Snapchat gymaint.” (Cyfranogwr NEET, 19-24)

“Tasa fo ar TikTok, mae'n debyg y byddwn i'n bendant yn edrych mwy i mewn iddo fo.” (Cyfranogwr digartref, 16-24)

“Y cyfryngau cymdeithasol. Dw i'n meddwl ein bod ni'n treulio tipyn o amser ar ein ffonau, dyna be dan ni'n ei weld fwyaf ... Rydan ni'n colli popeth arall achos ein bod ni'n edrych cymaint ar ein ffonau. Dw i'n meddwl mai'r cyfryngau cymdeithasol mae'n debyg ydy'r ffordd orau o gyrraedd pobl.” (Cyfranogwr EET, 19-24)

“Pob plattform cyfryngau cymdeithasol, ei daflu o yn ein hwynebau ni ym mhobman.” (Person ifanc, 16-24)

Dyweddodd un cyfranogwr y **gallai Facebook fod yn ddefnyddiol hyd yn oed os nad oedd pobl ifanc yn ei ddefnyddio eu hunain**, oherwydd gallai aelodau o'r teulu weld y cyfathrebiad a chyfeirio'r person ifanc ato neu glicio ar ddolen ar ei ran.

Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o gefnogaeth, mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnig cyfle i ysbrydoli ac ehangu gorwelion. Siaradodd un person ifanc am weld dysgwyr ar TikTok yn siarad am ddewisiadau

eraill yn lle prifysgol ac yn egluro beth ydyn nhw. Roedd hyn yn fuddiol i un cyfranogwr a oedd wedi gadael coleg addysg bellach cyn gorffen ei gwrs.

Yn ogystal â'r cyfryngau cymdeithasol, roedd rhai cyfranogwyr hefyd yn meddwl y byddai'n syniad da eu cyrraedd **drwy sefydliadau cymorth a chanolfannau addysg**: drwy staff cymorth, ymweliadau â'r sefydliadau, neu efallai y gallai pobl ifanc a oedd yn cael eu cefnogi ddod yn hyrwyddwyr y Warrant i Bobl Ifanc er mwyn helpu i gyfeirio eu cyfoedion at ganllawiau.

“Pawb sy'n gweithio efo pobl sydd ag anabledd neu sydd wedi gweithio efo pobl 16-24 oed, maen nhw'n cael y wybodaeth er mwyn iddyn nhw allu dod â hi i bobl eraill, ac maen nhw'n gallu dod â hi i bobl eraill o'r ysgol neu'r coleg neu os ydy un ohonon ni'n ei wneud o, er enghraifft os ydy un ohonon ni'n gweithio ar un darn, bydd pob un ohonon ni'n rhoi cynnig arno fo efo'n gilydd.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

Roedd yr awgrymiadau eraill yn cynnwys defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ac ystafelloedd aros y GIG. Awgrymwyd y teledu hefyd er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd ehangach, a allai wedyn gyfeirio'r rhai hynny yr oeddent yn meddwl y byddent yn elwa o'r gwasanaethau. **Roedd darparwyr budd-daliadau yn sianel bosibl arall a nodwyd**, er enghraifft fel cyfathrebiad gan yr Adran Waith a Phensiynau i'r rhai ar Gredyd Cynhwysol.

6.2 Fformat

Roedd rhai pobl ifanc yn meddwl y byddai fideos byr neu riliau cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol. **Dyma beth roedden nhw wedi arfer ei wyllo** a byddai'n helpu'r rhai a oedd yn cael trafferth â darllen, cyn belled eu bod yn glir.

“Pan fyddwch chi'n mynd drwy storïau, maen nhw'n dod i fyny efo'r hysbysebion ma, a dw i'n teimlo bod hysbysebion Snapchat ddim mor ddiflas â hysbysebion pawb arall, achos maen nhw'n rhai sgrin lawn a dim ond tua pum eiliad maen nhw'n ei gymryd.” (Cyfranogwr NEET, 19-24)

“Delweddau, lluniau, fideos, ar TikTok efallai, er enghraifft... dw i ddim yn gallu darllen pethau go iawn.” (Cyfranogwr anabl, 16-24)

6.3 Cynnwys a Negeseuon

Roedd awgrymiadau'n cael eu gwneud weithiau ynglŷn â beth y dylai cyfathrebiadau ei ddweud er mwyn dal sylw pobl ifanc, ac roedd rhai'n ymwneud â'r rhwystrau a ddisgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Beth oedd yn cael ei gynnig ac ar gyfer pwy roedd hynny;

“Tasa fo'n rhywbeth i'w wneud efo cyllid neu'r camau nesaf a lle i fynd a beth i'w wneud, byddai hynny'n gwneud i mi ei ddarllen achos mi fyddwn i'n meddwl 'o ia, defnyddiol', ti'n gwybod?” (Cyfranogwr EET, 19-24)

- Negeseuon ynglŷn â llwybrau galwedigaethol sydd ar gael, nid y rhai academiaidd yn unig, a beth sy'n bosibl heb radd prifysgol;

“[Ar TikTok] y pennawd oedd rhywbeth fel, 'Nid prifysgol yw'r unig lwybr'. **Rhywbeth sy'n dal eich sylw**, Achos o'r hyn dw i'n ei ddeall ro'n i'n meddwl mai prifysgol oedd yr unig le roeddech chi'n gallu mynd iddo.” (Cyfranogwr NEET, 16-18)

- Arddull y neges yn mynd yn syth at y pwynt, yn fachog, ddim yn rhy ffurfiol a'r iaith yn hawdd i'w darllen;
- **Cynnwys hawdd uniaethu ag ef, cynhwysol, ac yn cyfleu neges o gymorth teilwredig**. Gallai hyn gynnwys storïau am achosion a oedd yn rhoi sylw i rwystrau fel pwysau cyfweiliadau ac arholiadau, y teimlad o weld ffrindiau'n cael swyddi (a hwythau'n methu), a gweld pobl yn cael cymorth cadarnhaol gan y gwasanaeth;

“Tasa fo'n gwestiwn yn dweud, 'Ydych chi'n teimlo'n anghyfforddus o flaen pobl?' neu 'Ydych chi ddim yn dda mewn cyfweiliadau?' ... Os 'dach chi'n crybwyll pethau fel hyn, efallai y byddai pobl yn dweud, 'Ti'n gwybod, dw i wedi cael problemau, o achos hyn; sut mae hyn yn gallu fy helpu i?'” (Cyfranogwr NEET, 19-24)

“Dw i'n deud cael mwy o bobl fel ni i gymryd rhan, pobl sy'n gallu rhoi eu mewnbwn eu hunain a sôn am eu profiadau eu hunain.” (Gofalwr ifanc, 16-18)

“Rhoi pethau allan yna i bawb, a dim i'r criw A seren a B yn unig. Dylai fod i bawb, nid i'r rhai clyfar yn unig. (Cyfranogwr anabl, 16-24)

- Negeseuon am gefnogaeth ariannol;
- Negeseuon heriol, llawn cymhelliant i'w helpu i gael eu bywyd 'ar y trywydd cywir';

“Mae yna ferch o'r enw Molly-Mae. Roedd hi ar raglen o'r enw Love Island... Mi wnaeth hi ddweud mewn cyfweiliad **'dan ni i gyd yn cael yr un 24 awr â Beyoncé'**. Mae hynny wedi aros yn fy nghof i, achos pam ydw i'n eistedd ar fy sofffa am 20 munud pan fyddwn i'n gallu mynd am dro? Mae gen i yr un 24 awr â Beyoncé. Be ydw i'n ei wneud efo fy niwrnod sy'n adeiladol?” (Cyfranogwr NEET, 16-18)

“Dw i'n meddwl hyd yn oed dudalen ar Instagram fyddai'n cael ei rhannu'n ddyddiol neu ei rhannu'n wythnosol, ac yn rhoi cymhelliant. Unrhyw beth, a dweud y gwir, er mwyn ei gael o allan yna i fwy o bobl.” (Cyfranogwr NEET, 19-24)

- Eifen o 'hwyl';
- Defnyddio dylanwadwyr (e.e., enwogion, pobl o fyd chwaraeon).

Mae rhai o'r awgrymiadau hyn hefyd yn debygol o fynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal mynediad at gefnogaeth yn gyffredinol (e.e., balchder, ofn, gorbryder), a help i leihau'r stigma sydd o amgylch hyn.



6.4 Dyluniad

Roedd ar gyfranogwyr eisiau gweld rhywbeth a oedd yn **llachar, yn amlwg, ac yn atyniadol** â lliwiau cynnes.

Â'r rhwystrau llythrennedd a oedd yn bodoli i rai, a'r pryder bod cymorth yn cael ei gyfeirio gan mwyaf at y rhai a oedd wedi gwneud yn dda yn yr ysgol/a oedd yn fwy academiaidd, mae'n debyg y byddai ychydig bach o destun hawdd ei ddarllen, ynghyd â llawer o bethau gweledol/diagramau/darluniau yn llai tebygol o droi pobl i ffwrdd.

6.5 Hunaniaeth Noddwyr

Dywedodd ychydig o gyfranogwyr y **byddai labelu cyfathrebiadau fel rhai gan Lywodraeth Cymru, yn gwneud iddynt deimlo'n 'ddilys'** ac yn bwysig, a byddai'n dangos yn glir nad sgamiau ydynt. Er hyn, awgrymwyd hefyd na ddylid rhoi gormod o bwyslais ar Lywodraeth Cymru na chyrrff eraill oherwydd gallai hynny gadw rhai pobl draw, yn enwedig y rhai a oedd yn teimlo bod 'gwleidyddiaeth yn ddiflas'. Mae angen mwy o wybodaeth ynglŷn â sut y gellid gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o hunaniaeth noddwyr.

“Mae angen i ni wrando ar bobl ifanc a be maen nhw isio. **Gwireddu addewidion, peidio deud celwydd, deud y gallwch chi neud rhywbeth a pheidio wedyn.**” (Person ifanc, 16-24)



7.0
CASGLIADAU



Gwarant i Bobl Ifanc: Sgwrs Genedlaethol

7. Casgliadau

- Mae gan lawer o bobl ifanc **sefyllfaoedd personol cymhleth** a/ neu broblemau iechyd sy'n ei gwneud hi'n anodd iddynt roi blaenoriaeth i'w gyrfa neu eu haddysg. Ar y cyfan, mae adborth gan bobl ifanc yn dangos bod angen mwy o gymorth ar gyfer gofawyr ifanc a phroblemau iechyd meddwl, **a mwy o bwyslais ar ganllawiau llwybr cynhwysol a chyson wedi'u teilwra o oedran ifanc.**
- Roedd hanner y bobl ifanc 16-24 oed yn cytuno nad **oeddent yn teimlo eu bod wedi cael eu paratoi'n dda** i wneud y cwrs neu gael y swydd yr oedd arnynt eisiau ei chael, ac mae'r mwyafrif helaeth o'r bobl ifanc sydd wedi trio ymgeisio am swydd neu wneud cwrs wedi wynebu rhystrau. Mae hyn yn awgrymu bod gwir angen cefnogaeth ledled y wlad.
- Roedd mwy nag un o bob tri pherson ifanc 16-24 oed yn teimlo'n llai hyderus y gallent wneud y cwrs/cael y swydd yr oedd arnynt ei heisiau oherwydd pandemig Covid-19, ac roedd y gostyngiad hwn mewn hyder yn fwy mewn rhai rhanbarthau na'i gilydd. Bydd sicrwydd a grymuso rhanbarthol, yn fwyaf penodol drwy roi sylw i'r problemau a achoswyd gan y pandemig, yn hollbwysig er mwyn eu helpu i gyflawni eu nodau.
- Mae'n ymddangos bod gan y genhedlaeth hon **ysbryd entrepreneuriaid** – mae 1 o bob 4 yn awyddus i fod yn hunangyflogedig neu i ddechrau busnes. Mae'n werth ystyried hyn a sianelu eu diddordebau mewn ffordd gynhyrchiol.
- Nid yw mynediad at gefnogaeth yn rhywbeth y mae llawer o bobl ifanc wedi meddwl amdano – ond **mae profiadau o gefnogaeth wedi bod yn gadarnhaol** at ei gilydd i'r rhai hynny sydd wedi cael cefnogaeth. Bydd creu mwy o ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael, a sut i gael mynediad ati, yn fuddiol, er mwyn iddynt allu deall y gefnogaeth amrywiol sydd ar gael a gweld ei bod yn berthnasol iddyn nhw, beth bynnag eu hamgylchiadau.
- **Mae'r syniad o gefnogaeth yn apelio** at fwy na hanner yr holl bobl ifanc a gymerodd ran yn yr arolwg – mae hyn yn awgrymu y bydd y Warrant i Bobl Ifanc yn gael ei gweld fel newyddion da i lawer, ond **y peth pwysig yw eu gwneud yn ymwybodol o'r Warrant**, i ymgysylltu â'r warrant a chredu y gall eu helpu nhw fel unigolion.
- **Bydd y cyfryngau cymdeithasol yn sianel bwysig** er mwyn cyrraedd pobl ifanc ac ymgysylltu â nhw. Mae cynnwys gweledol sy'n rhoi sylw i'r holl wahanol broblemau ac yn dangos y gefnogaeth sydd ar gael, sut i gael mynediad ati a beth yw canlyniadau'r gefnogaeth hon i bobl ifanc, yn debygol o ennyn diddordeb.
- Bydd yn bwysig ystyried cyd-destun unrhyw bolisiau neu negeseuon sy'n cael eu cyfleu – bydd yr argyfwng costau byw/tanwydd presennol ac effeithiau parhaus COVID-19 yn effeithio ar eu penderfyniadau.
- Mae rhai gwahaniaethau amlwg yn y data o safbwynt rhywedd, lleoliad, oed ac ati. Bydd yn bwysig ystyried gwahaniaethau mewn agweddau a chanfyddiadau wrth lunio cyfathrebiadau teilwredig.



Golley Slater



Llywodraeth Cymru
Welsh Government